ystadegau ar gyfer cymru
statistics for wales

First Release
Datganiad Cyntaf

SDR 89/2014 (R) 30 Mai 2014

# Arolwg Cenedlaethol Cymru: Prif ganlyniadau, mis Ebrill 2013 i fis Mawrth 2014

Yn dilyn cyhoeddi'r datganiad hwn ar 29 Mai, 2014, nodwyd gwallau. Cafodd yr awdurdodau lleol eu labelu'n anghywir mewn tri siart yn y bennod ar wasanaethau awdurdodau lleol (siart 12, 13 a 14). Mae'r gwallau wedi cael eu cywiro, ynghyd â rhai mân faterion eraill nad ydynt yn effeithio ar y negeseuon yn y datganiad, a cafodd ei ail-gyhoeddi ar 30 Mai, 2014.

Arolwg wyneb yn wyneb o bobl ledled Cymru yw Arolwg Cenedlaethol Cymru. Bob blwyddyn, gofynnir i 14,500 o bobl am eu barn ar amrywiaeth eang o faterion sy'n effeithio arnynt hwy a'u hardal leol. Roedd ymatebwyr yn cael eu dewis ar hap i sicrhau bod y canlyniadau yn gynrychioliadol.

Mae'r datganiad hwn yn cyflwyno canlyniadau allweddol o'r ail flwyddyn lawn o waith maes (Ebrill 2013 i Fawrth 2014). Mae mwyafrif helaeth o'r cwestiynau a ofynnwyd yn 2013-14 wedi cael eu cynnwys yn yr arolwg yn 2012-13 hefyd. Ar gyfer pob canlyniad a drafodwyd yn y datganiad hwn, os oes gwahaniaeth arwyddocaol rhwng 2012-13 a 2013-14, yna bydd son am y newid hwn yn y datganiad. Lle y bo'n briodol, caiff y canlyniadau eu cymharu â chanlyniadau o arolygon eraill. Mae canlyniadau manylach ar gael ar wefan StatsCymru.

Ceir rhagor o wybodaeth am fethodoleg yr arolwg, y defnydd y gellid ei wneud o'r canlyniadau, a diffiniadau o'r termau a ddefnyddir yn y bwletin yn yr adran Gwybodaeth Allweddol o Ansawdd. Cyflwynir tablau sy'n cynnwys cyfyngau hyder ar gyfer rhai o'r canlyniadau yn Atodiad A. Mae gwybodaeth gefndirol am yr arolwg, yn cynnwys yr holiadur llawn, a dadansoddiad o ganlyniadau 2012-13, ar gael ar dudalennau gwe yr Arolwg Cenedlaethol.

## Canfyddiadau allweddol

### Bodlonrwydd cyffredinol ar iechyd, addysg, trafnidiaeth a Llywodraeth Cymru

- Gofynnwyd i bobl raddio gwasanaethau iechyd, y system addysg a'r system drafnidiaeth ar raddfa o ddim ('eithriadol o wael') i ddeg ('eithriadol o dda'). Roedd y graddfeydd cyfartalog a roddwyd ar gyfer addysg a thrafnidiaeth yn cyd-fynd â chanlyniadau 2012-13 (6.3 allan o 10 ar gyfer addysg, a 5.9 ar gyfer trafnidiaeth). Mae'r radd gyfartalog a roddwyd ar gyfer iechyd wedi gostwng ychydig o 6.4 yn 2012-13 i 6.2 yn 2013-14.
- Gofynnwyd i bobl raddio eu bodlonrwydd o ran pa mor dda y mae Llywodraeth Cymru yn gwneud eu gwaith, o ddim ('hollol anfodlon') i ddeg ('hollol fodlon'). Y radd gyfartalog oedd 5.8, yr un radd ag yn 2012-13.

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH GSR GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

**Ystadegydd:** Lisa Walters **Ffôn:** 029 2082 6685 **E-bost:** arolygon@cymru.gsi.gov.uk
**Diweddariad Nesaf:** Haf 2015 (dros dro)
**Trydar:** www.twitter.com/statisticswales | www.twitter.com/ystadegaucymru

Cyhoeddwyd gan Y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ
Ffôn – Swyddfa'r Wasg **029 2089 8099**, Ymholiadau Cyhoeddus **029 2082 3332**
**www.cymru.gov.uk/ystadegau**

Issued by Knowledge and Analytical Services
Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ
Telephone – Press Office **029 2089 8099**, Public Enquiries **029 2082 5050**
**www.wales.gov.uk/statistics**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

- O'r bobl a wnaeth apwyntiad i'w hunain ac a welodd eu meddyg teulu yn ystod y 12 mis diwethaf, cafodd 38% o bobl a wnaeth apwyntiad gyda meddyg teulu anhawster i wneud apwyntiad cyfleus. Roedd hwn wedi cynyddu o 33% yn 2012-13.

**Addysg - ysgolion ac ymgysylltiad rhieni**

- Roedd 92% o'r rhieni yn fodlon ar yr ysgol gynradd yr oedd eu plentyn yn ei mynychu ac roedd 85% yn fodlon ar yr ysgol uwchradd yr oedd eu plentyn yn ei mynychu.
- Roedd dros dri chwarter o rieni plant rhwng 3 a 7 oed yn darllen gyda'u plentyn neu yn helpu eu plentyn i ddysgu am lythrennau, rhifau neu siapiau o leiaf sawl gwaith yr wythnos.
- Roedd 53% o rieni plant rhwng 8 a 17 oed yn cynorthwyo eu plentyn gyda'i waith ysgol o leiaf sawl gwaith yr wythnos, fodd bynnag, roeddent yn llai tebygol o helpu eu plentyn i chwilio am wybodaeth ar gyfrifiadur at ddibenion addysgol, nag oeddent i helpu eu plentyn gyda thasgau addysgol eraill gyda 33% byth yn gwneud hynny.

**Gwasanaethau awdurdodau lleol**

- Dywedodd 57% bod eu hawdurdod lleol yn darparu gwasanaethau o safon uchel. Cytunwyd 41% bod eu cyngor yn dda yn rhoi gwybod i bobl pa mor dda y maent yn perfformio a hoffai 52% gael mwy o wybodaeth ar berfformiad eu cyngor.

**Lles**

- Gofynnodd yr Arolwg Cenedlaethol i bobl nodi ar raddfa o 0 (ddim yn fodlon o gwbl) i 10 (cwbl fodlon) pa mor fodlon yr oeddent ar wahanol agweddau ar eu bywydau. Roedd pobl fwyaf bodlon ar eu cydberthnasau personol, lle cafwyd sgôr gyfartalog o 8.6 a'n lleiaf bodlon ar sefyllfa ariannol eu cartref lle cafwyd sgôr gyfartalog o 6.9.
- Y sgôr gyfartalog a roddwyd ar gyfer bodlonrwydd ar fywyd oedd 7.7, sydd ychydig yn llai na'r sgôr a roddwyd ar gyfer yr un cwestiwn yn y flwyddyn flaenorol (7.8).
- Gofynnwyd cyfres o gwestiynau i asesu lles meddyliol yr ymatebwyr. Roedd y rhai hynny oedd ag iechyd gwael neu'r rhai a oedd yn cael trafferth ymdopi â'u biliau yn fwy tebygol o deimlo'n nerfus iawn, yn ddigalon, neu'n drist ac yn isel eu hysbryd. Roedd pobl ifanc yn fwy tebygol na phobl hŷn i deimlo'n 'nerfus iawn'.

**Ymddiriedaeth mewn pobl a sefydliadau**

- Gofynnwyd i ymatebwyr nodi ar raddfa o 0 (dim ymddiriedaeth) i 10 (ymddiriedaeth lawn) faint roeddent yn ymddiried yn y system wleidyddol, yr heddlu, y system gyfreithiol a phobl eraill. Y system wleidyddol gafodd y sgôr isaf, 4.3.
- Rhoddodd pobl mewn ardaloedd mwy difreintiedig sgoriau is ar y pynciau hyn na phobl mewn ardaloedd llai difreintiedig.
- Roedd y sgorau cyfartalog a roddwyd tebyg i'r sgorau'r DU yn ei chyfanrwydd ac yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd ar draws y 29 o wledydd Ewropeaidd.

**Ansawdd yr ardal leol**

- Cytunodd 70% o bobl bod eu hardal leol yn cael ei chynnal a'i chadw'n dda a chytunodd 62% nad oes sbwriel yn eu hardal leol. Roedd hyn yn amrywio fesul awdurdod lleol, gyda 80% o bobl yn Sir Benfro o'r farn bod eu hardal leol yn cael ei chynnal a'i chadw'n dda o gymharu â 56% o bobl yn Blaenau Gwent.

**Ymdeimlad o gymuned**

- Roedd 78% o bobl yn cytuno bod pobl yn eu hardal leol o wahanol gefndiroedd yn dod ymlaen yn dda gyda'i gilydd. Roedd 80% o bobl yn cytuno bod pobl yn eu hardal leol yn trin ei gilydd

gyda pharch ac ystyriaeth; Roedd pobl hŷn yn fwy tebygol na phobl ifanc o fod â safbwynt cadarnhaol am bobl yn eu hardal leol

## Teimlo'n ddiogel

- Roedd 79% o bobl yn teimlo'n ddiogel ar drafnidiaeth gyhoeddus wedi iddi dywyllu (mae hyn wedi cynnyddu o 74% yn 2012-13). Roedd pobl hŷn yn teimlo'n llai diogel na phobl ifanc ac roedd merched yn teimlo'n llai diogel na dynion.

## Arian personol

- Dywedodd 50% o bobl y gallent ymdopi â'u holl filiau ac ymrwymiadau heb unrhyw anawsterau. Nid yw'r cyfran o bobl sy'n yn ei chael yn frwydr gyson (12%) neu rhai sydd ar ei hôl hi gyda biliau (5%) wedi newid rhwng 2012-13 a 2013-14. Roedd pobl hŷn yn fwy tebygol o allu ymdopi â'u biliau a'u hymrwymiadau credyd heb anawsterau o gymharu â phobl ifanc.

## Larymau mwg

- Nid oedd gan 8% o aelwydydd larwm mwg oedd yn gweithio. Dim ond 6% o aelwydydd oedd a phlant o dan 16 oed oedd heb larwm mwg oedd yn gweithio, o gymharu â 9%o'r rhai heb blant.

## Defnydd o'r rhyngrwyd

- Roedd gan 75% o gartrefi fynediad i'r rhyngrwyd. Mae hyn yn cyfateb i tua 82% o bobl 18 oed neu drosodd oedd a mynediad i'r rhyngrwyd gartref. Mae hyn wedi cynyddu ers 2012-13, lle'r oedd gan 73% o gartrefi fynediad i'r rhyngrwyd.
- Mae'r gyfran o gartrefi rhentu preifat a chartrefu sydd â pherchenog yn byw ynddynt sydd a mynediad i'r rhyngrwyd yn y cartref wedi codi ers 2012-13 (o 76% ym mhob math o aelwyd i 81% a 79% yn y drefn honno). Mewn cyferbyniad, nid oedd unrhyw gynnydd arwyddocaol i bobl mewn tai cymdeithasol.
- Dywedodd 79% o bobl eu bod yn defnyddio'r rhyngrwyd yn y cartref, gwaith neu rywle arall; roedd hwn yn amrywio yn ôl oed, gyda chyfran llawer mwy o bobl o dan 45 yn defnyddio'r rhyngrwyd na'r rhai 45 oed a throsodd.
- Roedd newid sylweddol rhwng 2012-13 a 2013-14 yn y dyfeisiau tŷ a ddefnyddir gan bobl i fynd ar y rhyngrwyd. Roedd 71% yn defnyddio gliniadur (a gostyngiad o 75% yn 2012-13), 48% yn defnyddio cyfrifiadur n ben-desg (gostyngiad o 52% yn 2012-13), a mwy yn defnyddio eu ffonau symudol (cynyddu o 41% i 53%) neu ryw ddyfais llaw arall fel tabled neu iPad (sydd wedi cynyddu o 17% i 33%).
- Nododd 18% o bobl 18 oed a throsodd nad oeddent erioed wedi defnyddio'r rhyngrwyd.

## Teithio Llesol

- Gofynnwyd i ymatebwyr pa ddull o gludiant y maent fel arfer yn eu defnyddio i gyrraedd eu siopau lleol, eu meddyg teulu, tafarndai lleol, caffis, tai bwyta, neu eu gwaith/ysgol neu goleg O'r cyrchfannau hyn, roedd pobl yn fwyaf tebygol o gerdded i'w siopau lleol (49%) neu i dafarndai, caffis a bwytai lleol (41%) ; ac yn lleiaf tebygol o gerdded i'w gwaith (17%).
- Yr ysgol neu goleg oedd y cyrchfan lle'r oedd pobl yn fwyaf tebygol i feicio: roedd: 5% fel arfer yn seiclo yno Roedd. 3% fel arfer yn seiclo i'w gwaith.
- Roedd merched yn fwy tebygol na dynion o gael lifft gan bobl eraill, a dynion yn llawer mwy tebygol na menywod i feicio. Roedd pobl Caerdydd yn fwy tebygol na phobl mewn awdurdodau lleol eraill i feicio, defnyddio bysiau a thacsis, a thaith gerdded.
- O'r rhai sy'n byw llai na 2 filltir i ffwrdd o'u hysgol gynradd aeth 42% mewn car, roedd 48% yn cerdded gydag oedolyn, 20% yn cerdded ar eu pen eu hunain neu gyda phlant eraill a 2% yn beicio. Mae hyn yn cymharu â 26% yn mynd mewn car, 3% yn cerdded gydag oedolyn, 48% yn cerdded ar eu pen eu hunain neu gyda phlant eraill ac 1% beicio i'r ysgol uwchradd sy'n llai na 2 filltir i ffwrdd.

## Cynnwys


Llywodraeth Cymru ....................9
Iechyd ....................12
Bodlonrwydd gyda gwasanaethau iechyd....................12
Defnyddio gwasanaethau meddyg teulu....................14
Cael apwyntiadau yn yr ysbyty ....................16
Profiad cleifion....................17
Ymgysylltiad â gwasanaethau iechyd....................19
Gwasanaethau awdurdodau lleol....................20
Bodlonrwydd ar ysgolion cynradd ac uwchradd....................23
Profiad o ddelio ag ysgolion....................24
Ymgysylltiad rhieni â'u plant ....................25
Safbwyntiau ar y system addysg yng Nghymru ....................27
Lles ....................28
Ymddiriedaeth mewn pobl a sefydliadau ....................32
Ansawdd yr ardal leol ....................33
Ymdeimlad o gymuned....................34
Cyllid personol....................37
Teithio Llesol....................39
Larymau mwg ....................43
Defnydd a mynediad i'r rhyngrwyd....................44

Gwybodaeth allweddol o ansawdd....................48
Termau a diffiniadau ....................52
Atodiad A - Tablau canlyniadau gyda chyfyngau hyder o 95% ....................53

**Rhestr o siartiau**


Siart 1: Bodlonrwydd ar waith Llywodraeth Cymru, yn ôl oedran ....................................... 9
Siart 2: Faint yr oedd pobl wedi'i weld neu ei glywed am waith Llywodraeth Cymru .......... 10
Siart 3: Bodlonrwydd ar waith Llywodraeth Cymru, yn ôl lefel o ymwybyddiaeth .............. 11
Siart 4: Wedi Clywed 'Llawer iawn neu 'rhywfaint' am waith Llywodraeth Cymru yn ôl lefel cymwysterau ........................................................................................ 11
Siart 5: Bodlonrwydd ar y gofal a gafwyd gan feddyg teulu, yn ôl Bwrdd Iechyd Lleol ....... 12
Siart 6: Bodlonrwydd ar y gofal a gafwyd yn yr ysbyty, yn ôl Bwrdd Iechyd Lleol .............. 13
Siart 7: Rhesymau dros beidio â gallu cael apwyntiad cyfleus gyda meddyg teulu ............ 15
Siart 8: Y rhesymau a roddwyd dros beidio â gallu cael apwyntiad cyfleus yn yr ysbyty ..................................................................................................... 16
Siart 9: Wedi cael cyfle i newid yr apwyntiad, yn ôl Bwrdd Iechyd Lleol ............................ 16
Siart 10:Y gyfran a oedd yn cytuno â datganiadau am brofiad cleifion mewn meddygfa ac yn yr ysbyty ........................................................................... 17
Siart 11:Gwasanaethau Iechyd Lleol: ymgysylltiad a gwybodaeth .................................... 19
Siart 12:Y gyfran sy'n cytuno neu'n anghytuno bod eu cyngor yn darparu gwasanaethau o safon uchel, yn ôl awdurdod lleol ............................................ 20
Siart 13:Y gyfran sy'n cytuno neu'n anghytuno bod eu cyngor yn dda am adael i bobl leol wybod pa mor dda y mae'n perfformio, yn ôl awdurdod lleol ................ 21
Siart 14:Y gyfran sy'n cytuno neu'n anghytuno yr hoffent gael mwy o wybodaeth am sut mae eu cyngor yn perfformio, yn ôl awdurdod lleol ...................................... 22
Siart 15 Canran o rieni sy'n fodlon ar ysgol gynradd ac uwchradd eu plentyn .................. 23
Siart 16: Canran y rhieni a oedd yn 'tueddu i gytuno' neu'n 'cytuno'n gryf' â'r datganiadau am eu profiad o ddelio ag ysgolion ................................................ 24
Siart 17: Pa mor aml yr oedd rhieni'n gwneud gweithgareddau penodol gyda'u plant rhwng 3 a 7 oed ........................................................................................ 26
Siart 18: Pa mor aml yr oedd rhieni'n gwneud gweithgareddau penodol gyda'u plant rhwng 8 a 17 oed ...................................................................................... 27
Siart 19: Cyflwr addysg, yn ôl awdurdod lleol ..................................................................... 28
Siart 20: Bodlonrwydd ar wahanon agweddau bywyd ....................................................... 29
Siart 21: Cyfran a brofodd emosiynau yn y pedair wythnos ddiwethaf .............................. 30
Siart 22: Cyfran oedd yn teimlo'n hapus neu'n llonydd a heddychlon drwy'r amser neu'r rhan fwyaf o'r amser yn ystod y 4 wythnos diwethaf, yn ôl iechyd .............. 31
Siart 23: Sgorau cyfartalog ar gyfer ymddiriedaeth yn y 'rhan fwyaf o bobl', y system wleidyddol, yr heddlu a'r system gyfreithiol ........................................................ 32
Siart 24:Cyfran sy'n cytuno bod ei hardal leol wedi ei chynnal a'i chadw'n dda, yn ôl awdurdod lleol ................................................................................................ 33
Siart 25: Cyfran sy'n cytuno fod dim graffiti a fandaliaeth yn eu hardal leol, yn ôl awdurdod lleol ................................................................................................ 33
Siart 26: Cyfran y bobl a oedd yn cytuno â datganiadau am bobl yn eu hardal leol, yn ôl oedran ................................................................................................... 35
Siart 27: Teimlo'n ddiogel yn cerdded ar eu pen eu hun yn eu hardal leol wedi iddi dywyllu, yn ôl sgôr amddifadedd ......................................................................... 36
Siart 28: Gallu ymdopi â'u holl filiau ac ymrwymiadau heb anawsterau, yn ôl oedran ....... 37
Siart 29: Safbwyntiau ar y system drafnidiaeth, yn ôl awdurdod lleol ................................ 38
Siart 30: Dull trafnidiaeth a ddefnyddir fel arfer i gyrraedd amrywiaeth o lefydd ................ 39
Siart 31: Diben eu taith 'teithio llesol' ddiweddaraf ............................................................. 40
Siart 32:Dull trafnidiaeth a ddefnyddir gan blant i gyrraedd yr ysgol gynradd ac uwchradd ............................................................................................................... 41

Siart 33: Dull o deithio a ddefnyddir gan blant i gyrraedd yr ysgol gynradd ac uwchradd yn ôl pelleter o’r ysgol ....41
Siart 34: Pa mor aml mae pobl yn beicio neu gerdded fel dull o deithio, yn ôl rhyw....42
Siart 35: Cyfran yr aelwydydd sydd ag o leiaf un larwm mwg sy'n gweithio yn ôl deiliadaeth....43
Siart 36: Aelwydydd sydd â mynediad i'r rhyngrwyd, yn ôl deiliadaeth ....45
Siart 37: Mynediad i'r rhyngrwyd ymysg aelwydydd, 2004 i 2014 ....45
Siart 38: Defnydd o'r rhyngrwyd yn ôl oedran ....46
Siart 39: Dyfeisiau a ddefnyddir i gael mynediad i'r rhyngrwyd, yn ôl oedran....47
Siart 40: Rhesymau dros beidio â defnyddio'r rhyngrwyd ....47

## Rhestr o dablau


Tabl 1: Boddhad gyda Llywodraeth Cymru, yn ôl newidynnau demograffig........................53
Tabl 2: Faint y mae pobl wedi gweld neu glywed am Lywodraeth Cymru, yn ôl cyrhaeddiad addysgol ..............................................................................54
Tabl 3: Faint y mae pobl wedi gweld neu glywed am Lywodraeth Cymru, yn ôl eu gallu i siarad Cymraeg.............................................................................55
Tabl 4: Boddhad gyda'r gofal a dderbyniwyd yn y feddygfa, yn ôl oedran a Bwrdd Iechyd Lleol ..............................................................................55
Tabl 5: Boddhad gyda'r gofal a dderbyniwyd yn ysbyty, yn ôl oedran a Bwrdd Iechyd Lleol.........................................................................................56
Tabl 6: Barn am y system iechyd, yn ôl Bwrdd Iechyd Lleol ............................................56
Tabl 7: Pa mor hawdd yw cyrraedd a gadael y feddygfa, yn ôl ardal drefol / wledig ..........57
Tabl 8: Pa mor hawdd yw cyrraedd a gadael yr ysbyty, yn ôl ardal drefol / wledig ............57
Tabl 9: Cyfle i newid amser apwyntiad yn yr ysbyty, yn ôl Bwrdd Iechyd Lleol ..................57
Tabl 10: Cytuno â'r datganiad 'mae fy awdurdod lleol yn darparu gwasanaethau o ansawdd uchel', yn ôl awdurdod lleol .................................................58
Tabl 11: Cytuno â'r datganiad 'mae fy awdurdod lleol yn dda am roi gwybod i bobl sut y mae'n perfformio', yn ôl awdurdod lleol.......................................59
Tabl 12: Cytuno â'r datganiad 'Hoffwn gael mwy o wybodaeth am berfformiad fy awdurdod lleol', gan awdurdod lleol ...................................................60
Tabl 13: Boddhad rhieni ag ysgol eu plentyn ......................................................................61
Tabl 14: Profiad rhieni o ysgol eu plentyn ...........................................................................61
Tabl 15: Pa mor aml oedd rhieni'n gwneud gweithgareddau gyda'u plant rhwng 3 i 7.......62
Tabl 16: Pa mor aml oedd rhieni'n gwneud gweithgareddau gyda'u plant rhwng 8-17 ......63
Tabl 17: Barn pobl am y system addysg, yn ôl awdurdod lleol...........................................64
Tabl 18: Boddhad â bywyd, yn ôl newidynnau demograffig ..............................................65
Tabl 19: Boddhad â gwahanol elfennau bywyd, yn ôl ardal trefol neu gwledig ..................66
Tabl 20: Lefel y boddhad ag ansawdd yr amgylchedd byw yn ôl ardal cytundeb â'r datganiad 'mae fy ardal leol yn cael ei gynnal a'i chadw'n dda'..........................66
Tabl 21: Ymddiriedolaeth mewn pobl a sefydliadau cenedlaethol, yn ôl amddifadedd ......67
Tabl 22: Cytundeb â'r datganiad 'does dim sbwriel yn fy ardal lleol', yn ôl awdurdod lleol...................................................................................................67
Tabl 23: Cytuno â'r datganiad 'mae pobl yn yr ardal leol yn trin ei gilydd gyda pharch ac ystyriaeth', yn ôl oedran............................................................................68
Tabl 24: Cytundeb â'r datganiad 'fod pobl o whanol genndiroedd yn dod ymlaen gyda'i gilydd yn dda', yn ôl oed...........................................................................68
Tabl 25: Teimlo'n ddiogel wrth cerdded yn yr ardal leol ar ôl iddi dywyllu, yn ôl amddifadedd ..........................................................................................68
Tabl 26: Teimlo'n ddiogel wrth cerdded yn yr ardal leol ar ôl iddi dywyllu, yn ôl rhyw ........69
Tabl 27: Teimlo'n ddiogel wrth cerdded yn yr ardal leol ar ôl iddi dywyllu, yn ôl oed .........69
Tabl 28: Y gallu i gadw i fyny gyda biliau ac ymrwymiadau credyd, yn ôl oedran ..............70
Tabl 29: Boddhad cyffredinol gyda'r system drafnidiaeth yng Nghymru, yn ôl awdurdod lleol ..............................................................................71
Tabl 30: Teitho llesol a wnaed dros y 7 diwrnod diwethaf, yn ôl rhyw...............................71
Tabl 31: Teitho llesol a wnaed dros y 7 diwrnod diwethaf, yn ôl oed ................................72
Tabl 32: Teimlo'n ddiogel wrth deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus ar ôl iddi dywyllu, yn ôl oedran .............................................................................................72
Tabl 33: Mae gan y cartref larwm mwg sy'n gweithio, yn ôl daliadaeth a'r rhanbarth Gwasanaeth Tân ac Achub..........................................................................73
Tabl 34: Pobl sydd a mynediad i'r rhyngrwyd, yn ôl daliadaeth ac amddifadedd ...............73


Tabl 35: Pobl sy'n byw mewn cartrefi sydd â mynediad i'r rhyngrwyd, yn ôl oedran ..........73
Tabl 36: Defnydd personol o'r rhyngrwyd, yn ôl oed ..........................................................74

## Llywodraeth Cymru

Y Rhaglen Lywodraethu yw cynllun gweithredu Llywodraeth Cymru. Mae'n amlinellu'r hyn y mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu ei gyflawni a sut y mesurir y cyflawniad hwnnw. Un o'r ymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu yw sicrhau bod poblogaeth Cymru'n gwybod beth mae Llywodraeth Cymru'n ei wneud a pha mor dda y mae'n perfformio. Defnyddir yr Arolwg Cenedlaethol fel ffordd o fesur hyn.

Gofynnodd yr Arolwg Cenedlaethol i bobl pa mor fodlon oeddent ar y ffordd y mae Llywodraeth Cymru'n gwneud eu gwaith. Rhoddwyd atebion ar raddfa rhwng dim a deg, lle'r oedd dim yn golygu 'eithriadol o anfodlon' a 10 yn golygu 'hollol fodlon'. Y sgôr gyfartalog a roddwyd oedd 5.8. Mae siart 1 yn dangos sut mae bodlonrwydd ar waith Llywodraeth Cymru'n amrywio yn ôl oedran

**Siart 1: Bodlonrwydd ar waith Llywodraeth Cymru, yn ôl oedran (a)**




(a) Atebwyd ar raddfa o ddim (eithriadol o anfodlon) i ddeg (hollol fodlon)

- Roedd pobl ifanc (rhwng 16 a 24 oed) a phobl hŷn (75+) yn fwy bodlon ar y ffordd y mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gwneud eu gwaith, gan roi sgôr gyfartalog o 6.3 a 5.9 yn y drefn honno
- Roedd pobl rhwng 65 a 74 oed oedd lleiaf bodlon, gan roi sgôr gyfartalog o 5.4.

Mae'n werth nodi bod y gyfran o ymatebwyr a atebodd "Ddim yn gwybod" ar gyfer y cwestiwn hwn llawer uwch nag ar gyfer cwestiynau eraill, 12%. Ar y llaw arall, roedd y gyfran a atebodd 'ddim yn gwybod' ar gyfer cwestiynau tebyg ynghylch y systemau iechyd a thrafnidiaeth o dan 4%.[1] Fel ar gyfer pob cwestiwn arall, nid ydym wedi cynnwys atebion "Ddim yn gwybod" yn y dadansoddiad.

Canfu'r Arolwg Cenedlaethol bod pobl a allai siarad Cymraeg ychydig yn llai bodlon ar waith Llywodraeth Cymru, gan roi gradd gyfartalog o 5.9 o gymharu â 5.7 ar gyfer y rheini na allent siarad Cymraeg. Ni chanfuwyd unrhyw wahaniaeth sylweddol mewn gradd bodlonrwydd wrth ddadansoddi yn ôl rhyw, rhanbarth daearyddol neu p'un a oedd pobl yn ystyried eu hunain yn Gymraeg ai peidio.

Gofynnodd Arolwg Cymdeithasol Ewrop 2012 gwestiwn tebyg am fodlonrwydd ar waith llywodraeth y DU, a chofnododd sgôr gyfartalog o 4.1 (am lywodraeth y DU) a 3.8 ar gyfartaledd ar draws Ewrop. Fodd bynnag, mae nifer o wahaniaethau a all effeithio ar y canlyniadau.[2] Nodwch ar gyfer

[1] Atebodd 15% "Ddim yn gwybod" ar gyfer y system addysg lle nad oedd plenty o dan 19 oed yn y cartref ond 3% lle oedd plant yn y cartref. Gweler yr adran Addysg,


[2] Er enghraifft, mae pwerau Llywodraeth Cymru ddatganoledig yn wahanol i bwerau llywodraethau'r DU a llywodraethau Ewropeaidd eraill; gall y cwestiynau eraill a ofynnwyd yn y ddau arolwg effeithio ar ymatebion i'r cwestiwn hwn; ac mae'r cyfnodau amser a gwmpesir gan y ddau arolwg yn wahanol Mae'r canlyniadau Arolwg Cymedeithasol Ewrop yn seiliedig ar waith maes a gynhaliwyd ym mis Medi i Rhagfyr 2012, o'i gymharu â'r gwaith maes Arolwg Cenedlaethol a gynhaliwyd dros y

cymariaethau manwl gyda gwledydd Ewropeaidd eraill, dylai canlyniadau'r Arolwg Cymdeithasol Ewrop o 2012 gael ei chymharu â chanlyniadau Arolwg Cenedlaethol o 2012-13. Mae'r cymariaethau hyn ar gael yn yr adroddiad ar wahân.

Gofynnodd yr Arolwg Cenedlaethol 2013-14 i bobl faint yr oeddent wedi'i weld neu ei glywed am waith Llywodraeth Cymru dros y 12 mis diwethaf. Nododd 6% eu bod wedi gweld neu glywed 'llawer iawn', 30% 'rhywfaint', 42% 'dim ond ychydig', roedd 12% wedi gweld neu glywed am eu gwaith ond nid oeddent yn gwybod dim amdano, nid oedd 10% wedi gweld na chlywed dim am waith Llywodraeth Cymru dros y 12 mis diwethaf.

Yn 2008 gofynnwyd yr un cwestiwn yn yr Arolwg Byw yng Nghymru.[3] Caiff canlyniadau'r Byw yng Nghymru a'r Arolwg Cenedlaethol yn 2012-13 a 2013-14 eu cymharu yn Siart 2.

**Siart 2: Faint yr oedd pobl wedi'i weld neu ei glywed am waith Llywodraeth Cymru (a)**




Yn Byw yng Nghymru, y ddau opsiwn olaf yn yr atebion oedd 'Wedi clywed am eu gwaith, ond yn gwybod dim amdano' ac 'Byth wedi clywed na chlywed am eu gwaith'

Nid oes unrhyw wahaniaethau gwirioneddol rhwng y canlyniadau 2012-13 a 2013-14. Mae rhai i'w gweld wrth gymharu â chanlyniadau 2008: y peth fwyaf nodedig yw bod y gyfran o bobl sydd wedi clywed 'llawer iawn' am Lywodraeth Cymru yn uwch, yn 2008 ac mae'r gyfran a oedd wedi 'heb weld na chlywed dim' yn is. Fodd bynnag, mae'r Arolwg Byw yng Nghymru yn defnyddio dull[3] ychydig yn wahanol a all olygu bod yr ymatebwyr yn fwy tebygol o wybod mwy.

Roedd cysylltiad rhwng bodlonrwydd ar y ffordd yr oedd Llywodraeth Cymru'n gwneud eu gwaith a faint yr oedd pobl wedi'i glywed neu ei weld am waith Llywodraeth Cymru[4]. Dangosir y gydberthynas hon yn Siart 3.


---

flwyddyn lawn o Ebrill 2013 i fis Mawrth 2014. Am y cyfnodau amser mwyaf tebyg, gweler y gymhariaeth o Arolwg Cenedlaethol 2012-13 gyda ESS chanlyniadau 2012 yma.

[3] Roedd yr Arolwg Byw yng Nghymru yn arolwg wyneb yn wyneb a gynhaliwyd gyda chynrychiolydd yr aelwyd (yr unigolyn sy'n berchen ar/rhentu'r cartref, yr unigolyn hynaf neu'r unigolyn sy'n ennill y mwyaf) ac nid oedolyn a ddewiswyd ar hap 16+ oed fel yn yr Arolwg Cenedlaethol. Gall y gwahaniaeth mewn dyluniad gyfrannu at y gwahaniaeth mewn canlyniadau rhwng y ddau arolwg.

[4] Byddai angen dadansoddiad pellach i ddarganfod sut fod bodlonrwydd gyda Llywodraeth Cymru yn ymwneud â lefel yr ymwybyddiaeth o'i gwaith. Er enghraifft, efallai y bydd ymwybyddiaeth is o waith Llywodraeth Cymru yn arwain at foddhad is; efallai bod boddhad is yn arwain pobl i adrodd am ymwybyddiaeth is; neu efallai y bod trydydd ffactor, fel tuedd gwleidyddol, yn dylanwadu ar boddhad ac ymwybyddiaeth. Mae rhybudd tebyg yn berthnasol i berthynasau eraill sydd yn cael eu nodi yn y datganiad hwn.

**Siart 3: Bodlonrwydd ar waith Llywodraeth Cymru, yn ôl lefel o ymwybyddiaeth**





(a) Atebwyd ar raddfa o ddim (eithriadol o anfodlon) i ddeg (hollol fodlon)

- Roedd pobl a ddywedodd nad oeddent wedi gweld na chlywed dim am waith Llywodraeth Cymru yn ystod y 12 mis diwethaf yn llai bodlon ar y ffordd yr oedd Llywodraeth Cymru wedi bod yn gwneud eu gwaith, gan roi sgôr gyfartalog o 4.6.
- Mae hyn yn cymharu â sgôr bodlonrwydd o 6.3 a roddwyd gan y rheini a oedd yn gwybod 'cryn dipyn' am waith Llywodraeth Cymru

Roedd yna gysylltiad rhwng lefelau cymwysterau a faint o bobl a oedd wedi gweld neu glywed am Lywodraeth Cymru. Gweler siart 4.

**Siart 4: Wedi Clywed 'Llawer iawn neu 'rhywfaint' am waith Llywodraeth Cymru yn ôl lefel cymwysterau[5]**




- Roedd 26% o'r rheini heb gymwysterau wedi gweld neu glywed 'llawer' neu 'gryn dipyn' o gymharu â 49% o'r rheini gyda lefel uchel o gymwysterau (Lefel Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol 4-8, sy'n cyfateb i chymwysterau uwch na lefel 'A')

Canfu'r Arolwg Cenedlaethol hefyd fod siaradwyr Cymraeg yn fwy tebygol o fod wedi gweld neu glywed 'llawer iawn' neu 'rhywfaint' am waith Llywodraeth Cymru (48%) o gymharu â'r rhai nad oeddent yn siaradwyr Cymraeg (33%).

[5] Ceir fwy o wybodaeth am Lefel Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol yma.

# Iechyd


Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynnwys safbwyntiau defnyddwyr gofal iechyd wrth fesur perfformiad y GIG yng Nghymru. Mae Law yn Llaw at Iechyd, cynllun pum mlynedd ar gyfer GIG Cymru, yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru'n datblygu dull gweithredu cenedlaethol o fesur profiad defnyddwyr iechyd. Un o'r ffyrdd y bydd Llywodraeth Cymru yn mesur profiadau pobl o GIG Cymru yw gofyn drwy gwestiynau yn yr Arolwg Cenedlaethol.

Roedd yr Arolwg Cenedlaethol yn cynnwys cyfres o gwestiynau am brofiadau pobl o feddygfeydd ac ysbytai'r GIG. Roedd y cwestiynau hyn yn cwmpasu bodlonrwydd ar y gwasanaeth iechyd yn gyffredinol, hygyrchedd gwasanaethau gofal iechyd, p'un a oedd pobl o'r farn eu bod yn cael eu trin gydag urddas a pharch, a bodlonrwydd ar y gofal a gawsant.

## Bodlonrwydd gyda gwasanaethau iechyd

Roedd 77% o bobl wedi gweld meddyg teulu ynghylch eu hiechyd eu hunain yn ystod y 12 mis diwethaf. O'r rhain, roedd 92% yn fodlon (68% yn fodlon iawn a 24% yn eithaf bodlon) ar y gofal a gawsant. Mae Siart 5 yn dangos y gyfran a oedd yn fodlon iawn neu'n eithaf bodlon ar y gofal a gawsant, yn ôl Bwrdd Iechyd Lleol[6].

**Siart 5: Bodlonrwydd ar y gofal a gafwyd gan feddyg teulu, yn ôl Bwrdd Iechyd Lleol**





Fel y gellir gweld yn siart 5, nid oedd llawer o amrywiad rhwng y Byrddau Iechyd. Roedd cyfran y bobl oedd yn fodlon ar y gofal a gawsant yn eu hapwyntiad gyda meddyg teulu yn amrywio o 91% o bobl sy'n byw yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg i 94% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.[7] Mae ymchwil blaenorol wedi dangos bod y mwyafrif o'r amrywiad mewn boddhad gyda’r gofal a dderbyniwyd gan y meddyg teulu oherwydd y gwahaniaethau sydd rhwng unigolion, ac nid y Bwrdd Iechyd maent yn byw ynddo[8]

Canfuwyd fod pobl 75 oed a throsodd yn fwy bodlon ar y gofal a gawsant gan eu meddyg teulu (97%) nag oedolion iau rhwng 16 a 24 oed (87%).

[6] Ceir gwybodaeth am Fyrddau Iechyd Lleol yma: http://www.wales.nhs.uk/nhswalesaboutus/structure
[7] Gweler Tabl 4 yn yr Atodiad i weld y canlyniadau yn fwy manwl, gan gynnwys cyfyngau hyder.
[8] Gweler yr adroddiad ar foddhad gyda gwasanaethau iechyd sydd wedi ei seilio ar ganlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol yn 2012-13.

Canfu'r Arolwg Cenedlaethol fod 41% o'r bobl a holwyd wedi mynychu apwyntiad mewn ysbyty yn ystod y 12 mis diwethaf. O'r rhain, roedd 91% yn fodlon (70% yn fodlon iawn a 21% yn eithaf bodlon) ar y gofal a gawsant (mae hyn yn cynnwys cleifion dydd, cleifion allanol a chleifion mewnol). Yn 2008 roedd yr [arolwg Byw yng Nghymru](#) yn cynnwys cwestiwn tebyg am fodlonrwydd ar y 'gwasanaeth' (yn hytrach na'r 'gofal') a gafwyd. Cafwyd canlyniad tebyg: Roedd 87% o bobl yn fodlon ar y gwasanaeth a gawsant. Mae Siart 6 yn dangos y gyfran a oedd yn fodlon iawn neu'n eithaf bodlon gyda'r gofal a gawsant yn yr ysbyty, yn ôl Bwrdd Iechyd Lleol yn ôl canlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol yn 2013-14.

**Siart 6: Bodlonrwydd ar y gofal a gafwyd yn yr ysbyty, yn ôl Bwrdd Iechyd Lleol**




Unwaith eto, nid yw canlyniadau yn amrywio'n fawr yn ôl Bwrdd Iechyd, gan eithrio Powys, lle mae boddhad yn is (83% yn fodlon ar y gofal a dderbyniwyd, o'i gymharu â 92% yn 2012-13).[9] Fel gyda gofal meddyg teulu, mae ymchwil blaenorol wedi dangos bod y mwyafrif o'r amrywiad mewn boddhad gyda'r gofal a dderbyniwyd yn yr ysbyty oherwydd y gwahaniaethau sydd rhwng unigolion, ac nid y Bwrdd Iechyd maent yn byw ynddo[10]

Fel gyda gofal meddyg teulu, roedd pobl hŷn yn tueddu i fod yn fwy bodlon ar y gofal ysbyty a gawsant. Roedd 94% o bobl 75 oed a throsodd yn fodlon ar y gofal a gawsant o gymharu â 86% o bobl rhwng 16 a 24 oed.

Gofynnwyd i bobl hefyd am eu barn ar gyflwr cyffredinol gwasanaethau iechyd yng Nghymru, p'un a oeddent wedi defnyddio unrhyw wasanaethau iechyd yn ystod y 12 mis diwethaf ai peidio. Ar gyfer y cwestiwn hwn, gofynnwyd i ymatebwyr ystyried pob agwedd ar wasanaethau'r GIG, o feddygon teulu i fferyllfeydd, deintyddion ac optegwyr y GIG, gwasanaethau iechyd cymunedol, ac ysbytai. Rhoddwyd atebion ar raddfa rhwng dim a deg, lle'r oedd dim yn cyfleu 'eithriadol o wael' a deg yn cyfleu 'eithriadol o dda'. Y sgôr gyfartalog a roddwyd oedd 6.2. Mae hyn ychydig yn is na'r sgôr cyfartalog a roddwyd ar gyfer yr un cwestiwn yn 2012-13 (6.4).

Yn 2012, gofynnodd Arolwg Cymdeithasol Ewrop yr un cwestiwn i ymatebwyr ar draws 29 gwlad ar draws Ewrop, gan gynnwys y DU. Nid oedd llawer o wahaniaeth rhwng cyfartaledd cenedlaethol y DU

[9] Gweler Tabl 5 yn yr Atodiad i weld y canlyniadau yn fwy manwl, gan gynnwys cyfyngau hyder.
[10] Gweler yr adroddiad ar foddhad gyda gwasanaethau iechyd sydd wedi ei seilio ar ganlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol yn 2012-13.

(6.3) a chyfartaledd Cymru yn 2013-14 (6.2). Fodd bynnag, y radd gyfartalog ar draws gwledydd Ewrop a gafwyd yn Arolwg Cymdeithasol Ewrop oedd 4.9 sy'n llawer is na chanlyniadau'r DU a Chymru.[11]

Nodwch ar gyfer cymariaethau manwl gyda gwledydd Ewropeaidd eraill, dylai canlyniadau'r Arolwg Cymdeithasol Ewrop o 2012 gael ei chymharu â chanlyniadau Arolwg Cenedlaethol o 2012-13. Mae'r cymariaethau hyn ar gael yn yr adroddiad ar wahân.

Rhoddodd pobl 75 oed a throsodd a phobl ifanc 16 i 24 oed radd uwch ar gyfartaledd: 7.1 a 6.6, o gymharu â chyfartaledd o 5.8 ar gyfer pobl rhwng 45 a 64 oed. Doedd dim gwahaniaeth arwyddocaol yn ystadegol rhwng y graddau a gafodd ei roi yn ôl Bwrdd Iechyd Lleol.[12]

## Defnyddio gwasanaethau meddyg teulu

Mae'r Rhaglen Lywodraethu a Law yn Llaw at Iechyd yn amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y GIG. Mae hyn yn cynnwys gwella hygyrchedd gwasanaethau meddyg teulu, yn benodol i sicrhau bod gwasanaethau ar gael i bobl sy'n gweithio ar adegau sy'n gyfleus iddynt hwy. Bydd canlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol ar ba mor hawdd yw cael apwyntiad meddyg teulu yn ffynhonnell allweddol o dystiolaeth am y defnydd a wneir o feddygfeydd.

Gofynnodd yr Arolwg Cenedlaethol i bobl pa mor hawdd neu anodd oedd iddynt wneud apwyntiad cyfleus gyda meddyg teulu a pha mor hawdd neu anodd oedd iddynt deithio i'r feddygfa ac oddi yno. Canfu fod 62% o bobl a oedd wedi gweld eu meddyg teulu yn ystod y 12 mis diwethaf, ac wedi gwneud apwyntiad iddynt eu hunain, yn dweud ei bod yn hawdd [13] iddynt gael apwyntiad cyfleus. Dywedodd 38% o bobl a wnaeth apwyntiad gyda meddyg teulu ei bod yn anodd iddynt wneud apwyntiad cyfleus. Mae hyn yn uwch na'r gyfran a ddywedodd ei bod yn anodd gwneud apwyntiad yn 2012-13 (33%).


Gofynnwyd i ymatebwyr a ddywedodd ei bod yn hawdd gwneud apwyntiad cyfleus beth oedd y rheswm dros hyn. Dangosir y rhesymau yn Siart 7 isod.

[11] Dylid ystyried y gwahaniaethau rhwng Arolwg Cymdeithasol Ewrop a'r Arolwg Cenedlaethol wrth gymharu'r canlyniadau. Er enghraifft, mae'r Arolwg Cenedlaethol yn cynnwys cyflwyniad sy'n annog ymatebwyr i feddwl am yr amrywiaeth lawn o ofal iechyd a gyflenwir. Gweler troednodyn 2 am drafodaeth bellach o'r gwahaniaethau. Ceir trafodaeth fanylach o gymariaethau rhwng Arolwg Cymdeithasol Ewrop a chwarter cyntaf canlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol (Ion - Maw 2012) mewn bwletin ystadegol ar wahân.

[12] Gweler Tabl 6 yn yr Atodiad i weld y canlyniadau yn fwy manwl, gan gynnwys cyfyngau hyder.

[13] Caiff 'Hawdd' ei ddiffinio fel y rhai a ddywedodd 'hawdd iawn a 'gweddol hawdd' ac 'Anodd' ei ddiffinio fel y rhai a ddywedodd 'anodd iawn' a 'gweddol anodd'

**Siart 7: Rhesymau dros beidio â gallu cael apwyntiad cyfleus gyda meddyg teulu (a) (b)**




(a) Nid yw'r canrannau'n adio i 100% oherwydd y gallai ymatebwyr ddewis mwy nag un rheswm.
(b) Gofynnwyd y cwestiwn i bobl a oedd wedi cael apwyntiad gyda'u meddyg teulu yn ystod y 12 mis diwethaf ac wedi yn ei chael yn anodd cael apwyntiad cyfleus

Y rheswm mwyaf cyffredin a roddwyd oedd 'rhaid aros yn hir am apwyntiad' (54% o'r rheini yr oedd yn anodd iddynt wneud apwyntiad cyfleus).

Nododd 94% o bobl a oedd wedi ymweld â'u meddyg teulu yn ystod y 12 mis diwethaf ei bod yn hawdd iddynt deithio yno ac yn ôl. Yn yr un modd, nododd Arolwg Byw yng Nghymru 2008 bod 92% o bobl wedi dweud ei bod yn hawdd iddynt deithio i feddygfa ac yn ôl. Ni chanfu'r Arolwg Cenedlaethol 2013-14 unrhyw wahaniaeth mawr rhwng pa mor hawdd ydoedd i bobl sy'n byw mewn ardaloedd trefol a gwledig deithio i'r feddygfa.[14] Gwnaeth dadansoddiad mwy manwl ar ganlyniadau 2012-13, a oedd yn a rheoli ar gyfer ffactorau eraill, ddangos fod pobl mewn ardaloedd gwledig ychydig yn fwy tebygol (1.5% yn fwy tebygol) o'i chael yn anodd i cyrraedd y feddygfa na phobl mewn ardaloedd trefol. Fodd bynnag, mae ffactorau eraill, megis byw mewn ardal gydag amser teithio uchel iawn at y meddyg teulu, iechyd gwael, a bod heb gar yn cael llawer mwy o effaith[15].


[14] Gweler 'Termau a Diffiniadau' yn yr adran Gwybodaeth Allweddol o Ansawdd.
[15] Gweler yr adroddiad ar foddhad gyda gwasanaethau iechyd sy'n seiliedig ar ganlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol yn 2012-13.

## Cael apwyntiadau yn yr ysbyty

Yn 2013-14, canfu'r Arolwg Cenedlaethol bod 94% o bobl a gafodd apwyntiad yn yr ysbyty yn ystod y 12 mis diwethaf wedi gallu cael apwyntiad ar ddyddiad ac amser a oedd yn gyfleus iddynt hwy.

Gofynnwyd i ymatebwyr a ddywedodd nad oedd dyddiad ac amser eu hapwyntiad yn gyfleus beth oedd y rhesymau dros hynny. Dangosir y rhesymau yn Siart 9 isod.

**Siart 8: Y rhesymau a roddwyd dros beidio â gallu cael apwyntiad cyfleus yn yr ysbyty (a)(b)**





(a) Nid yw'r canrannau'n adio i 100% oherwydd y gallai ymatebwyr ddewis mwy nag un rheswm
(b) Gofynnwyd y cwestiwn i bobl a oedd wedi cael apwyntiad yn yr ysbyty yn ystod y 12 mis diwethaf, neu wedi trefnu apwyntiad ac wedi yn ei chael yn anodd cael apwyntiad cyfleus.

Y rheswm mwyaf cyffredin a roddwyd oedd 'Anodd cymryd amser i ffwrdd o'r gwaith neu addysg' (45% o'r rheini na chawsant apwyntiad cyfleus). Mae cyfran uwch o bobl wedi dweud hyn yn 2013-14 nag yn 2012-13, pan roddodd 35% hwn fel eu rheswm.

Gofynnwyd i'r holl ymatebwyr a gafodd apwyntiad yn yr ysbyty yn ystod y 12 mis diwethaf (p'un a oedd yr apwyntiad yn gyfleus ai peidio) a gawsant y cyfle i newid eu hapwyntiad. Dywedodd 85% eu bod wedi cael cyfle a dywedodd 15% na chawsant gyfle. Mae Siart 9 yn nodi'r canlyniadau ar gyfer y cwestiwn hwn, yn ôl Bwrdd Iechyd Lleol.

**Siart 9: Wedi cael cyfle i newid yr apwyntiad, yn ôl Bwrdd Iechyd Lleol**



Dywedodd cyfran fwy o bobl sy'n byw yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr eu bod wedi cael cyfle i newid amser eu hapwyntiad ysbyty (88%). Mae hyn yn cymharu â 78% o bobl yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.[16]

Nododd 82% o bobl a oedd wedi cael apwyntiad yn yr ysbyty ei bod yn hawdd iddynt deithio yno ac yn ôl. Gofynnodd Arolwg Byw yng Nghymru 2008 gwestiwn tebyg, er y gallai ymatebwyr hefyd gynnwys adegau pan aethant gyda phlentyn neu rywun maent yn gofalu amdano; fodd bynnag, cafwyd yr un canlyniad â'r Arolwg Cenedlaethol: dywedodd 84% ei bod yn hawdd iddynt deithio i'r ysbyty ac yn ôl.


Ni chanfu'r Arolwg Cenedlaethol 2013-14 unrhyw wahaniaeth mawr rhwng pa mor hawdd ydoedd i bobl sy'n byw mewn ardaloedd trefol a gwledig deithio i apwyntiadau yn yr ysbyty ac yn ôl. Gwnaeth dadansoddiad mwy manwl ar ganlyniadau 2012-13, a oedd yn a rheoli ar gyfer ffactorau eraill, ddangos fod pobl mewn ardaloedd gwledig ychydig yn fwy tebygol (4% yn fwy tebygol) o'i chael yn anodd i gyrraedd yr ysbyty na phobl mewn ardaloedd trefol. Fodd bynnag, mae ffactorau eraill, megis bod heb gar, iechyd gwael, ac yn teimlo'n anniogel ar gludiant cyhoeddus, yn cael mwy o effaith[17].

## Profiad cleifion

Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i wella ansawdd gwasanaethau iechyd a phrofiad cleifion. Un o'r prif amcanion yw cyflawni'r rhaglen weithredu 'Urddas mewn Gofal', sydd wedi'i chynllunio i warchod urddas, diogelwch a phreifatrwydd cleifion.

Gofynnodd yr Arolwg Cenedlaethol i bobl a oedd wedi bod i feddygfa neu wedi cael apwyntiad mewn ysbyty'r GIG yn ystod y 12 mis diwethaf a oeddent yn cytuno â chyfres o ddatganiadau am eu profiad. Nodir y datganiadau a'r ymatebion yn Siart 10.

**Siart 10: Y gyfran a oedd yn cytuno â datganiadau am brofiad cleifion mewn meddygfa ac yn yr ysbyty (a)**




(a) Mae 'Cytuno' yn cael ei ddiffinio fel y rhai a ddywedodd 'cytuno'n gryf' a 'tueddu i gytuno'

Cytunodd 96% o bobl a welodd feddyg teulu a 95% o bobl a gafodd apwyntiad yn yr ysbyty eu bod wedi cael eu trin gydag urddas a pharch. Nododd Arolwg Byw yng Nghymru 2008 ganlyniadau tebyg iawn.[18]

Yn 2013-14, canfu'r Arolwg Cenedlaethol fod 84% o bobl a welodd feddyg teulu a 84% o bobl a gafodd apwyntiad yn yr ysbyty yn cytuno bod gan y meddyg teulu/gweithiwr iechyd proffesiynol yr holl

[16] Gweler Tabl 9 yn yr Atodiad i weld y canlyniadau yn fwy manwl, gan gynnwys cyfyngau hyder.
[17] Gweler yr adroddiad ar foddhad gyda gwasanaethau iechyd sy'n seiliedig ar ganlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol yn 2012-13.
[18] Gofynnwyd i ymatebwyr yr Arolwg Cenedlaethol am eu profiad yn eu hapwyntiad diwethaf. Roedd yr Arolwg Byw yng Nghymru hefyd yn galluogi ymatebwyr i ystyried profiad mewn apwyntiad ar gyfer plentyn maent yn gofalu amdano, felly mae'r cwestiynau ychydig yn wahanol.

wybodaeth berthnasol am eu hanes meddygol. Unwaith eto doedd hwn ddim yn arwyddocaol yn wahanol i ganlyniadau 2012-13. Cafodd cwestiwn tebyg ei gynnwys mewn arolwg o brofiad cleifion a gynhaliwyd yng Nghymru yn 2009, ond dim i gleifion â chyflyrau cronig y gofynnwyd y cwestiwn. Dywedodd 84% o ymatebwyr i'r arolwg hwnnw bod gan eu meddyg teulu'r holl wybodaeth gefndir angenrheidiol am eu cyflwr a'u triniaeth; y ffigur ar gyfer dweud bod gan arbenigwyr y wybodaeth angenrheidiol oedd 76%.

Dangosodd ymchwil flaenorol, a oedd yn seiliedig ar ganlyniadau Arolwg Cenedlaethol 2012-13, nad oedd barn pobl ar foddhad gyda'r gofal a gawsant gan feddygon teulu ac ysbytai yn cael eu dylanwadu'n fawr gan eu nodweddion demograffig fel eu lefelau addysg neu eu rhyw. Mae boddhad cyffredinol yn cael ei ddylanwadu llawer mwy gan y ffaith fod pobl yn meddwl eu bod yn cael yr holl wybodaeth sydd ei hangen am eu cyflwr, ac a ydynt yn cael eu trin ag urddas a pharch. Yn ddiddorol, canfu'r ymchwil hefyd na fod y ffaith fod y meddyg yn gwybod y wybodaeth berthnasol amdanynt yn cael dylanwad cryf ar foddhad.

## Ymgysylltiad â gwasanaethau iechyd


Mae gan Lywodraeth Cymru ddiddordeb mewn gwybod i ba raddau y maent o'r farn eu bod yn ymgysylltu â gwasanaethau cyhoeddus fel y gall weithio i wella lefelau ymgysylltu â'r cyhoedd, ac yn sgil hynny, wella gwasanaethau cyhoeddus.

Gofynnodd yr Arolwg Cenedlaethol nifer o gwestiynau am ymgysylltiad pobl â gwasanaethau iechyd lleol. Gofynnwyd i bobl i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â'r pedwar datganiad canlynol:

- Rwy'n cael gwybod pa mor dda yw perfformiad fy ngwasanaethau iechyd lleol;
- Hoffwn gael mwy o wybodaeth am sut mae fy ngwasanaethau iechyd lleol yn perfformio;
- Rwy’n gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar fy ngwasanaethau iechyd lleol;
- Hoffwn i gymryd mwy o ran yn y penderfyniadau y mae fy ngwasanaeth iechyd lleol yn eu gwneud.

Nodir y canlyniadau yn Siart 11.

**Siart 11: Gwasanaethau Iechyd Lleol: ymgysylltiad a gwybodaeth**




Roedd 6% o bobl oedd yn cytuno'n gryf eu bod yn cael gwybod pa mor dda yw perfformiad eu gwasanaethau iechyd lleol, gyda 19% yn tueddu i gytuno. Roedd 56% o bobl am gael mwy o wybodaeth am berfformiad (20% yn cytuno'n gryf â'r datganiad a 36% yn tueddu i gytuno). Dim ond 2% o bobl oedd yn cytuno'n gryf a 11% yn tueddu i gytuno eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau a wneir gan eu gwasanaeth iechyd lleol. Roedd 43% am gymryd mwy o ran yn y penderfyniadau hynny (14% yn cytuno'n gryf â'r datganiad a 30% yn tueddu i gytuno); mae’r gyfran oedd yn cytuno'n gryf wedi cynyddu ers 2012-13 pan roedd 11% yn cytuno'n gryf.

Mewn mannau eraill yn yr Arolwg Cenedlaethol, cafodd datganiadau tebyg eu graddio gan ymatebwyr ar gyfer gwasanaethau awdurdodau lleol, a gwelwyd patrwm tebyg (gweler tudalen 18). Fodd bynnag, roedd mwy o bobl yn cytuno[19] â'r datganiad 'mae fy Nghyngor yn dda am adael i bobl leol wybod pa mor dda y mae'n perfformio' (41% na gyda'r datganiad tebyg ar gyfer gwasanaethau iechyd lleol (25%).

[19] Caiff 'Cytuno' ei ddiffinio fel y rhai a ddywedodd 'cytuno'n gryf' a 'tueddu i gytuno'


## Gwasanaethau awdurdodau lleol

Mae 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru, sy'n gyfrifol am ddarparu amrywiaeth eang o wasanaethau yn eu hardal, gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol, addysg a thai. Mae awdurdodau lleol yn gweithio o fewn pwerau a sefydlir o dan sawl Deddf Seneddol a Mesurau a basiwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae Llywodraeth Cymru'n casglu tystiolaeth gan nifer o ffynonellau i fonitro perfformiad pob awdurdod lleol (e.e. adroddiadau archwilio, arolygu a rheoleiddio, data perfformiad, a chynnydd a nodwyd gan awdurdodau lleol eu hunain tuag at eu hamcanion strategol).

Roedd yr Arolwg Cenedlaethol yn cynnwys nifer o gwestiynau am wasanaethau awdurdod lleol yng Nghymru er mwyn helpu i ddeall safbwyntiau pobl am y gwasanaethau hynny. Bydd y canlyniadau'n ategu ffynonellau eraill o dystiolaeth ac yn galluogi Llywodraeth Cymru i wneud penderfyniadau mwy hyddysg am yr angen i roi cymorth i bob awdurdod lleol. Bydd y canlyniadau hefyd o ddiddordeb i sefydliadau sector cyhoeddus eraill fel awdurdodau lleol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru.

Gofynnwyd i bobl a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad 'mae fy nghyngor yn darparu gwasanaethau o safon uchel'. Yn gyffredinol, roedd 57% yn cytuno â'r datganiad; roedd hyn yn amrywio o 46% yng Nghastell-nedd Port Talbot i 66% yng Nghaerffili. Dangosir y canlyniadau ar gyfer pob awdurdod lleol yn Siart 12 isod.[20]

**Siart 12: Y gyfran sy'n cytuno neu'n anghytuno bod eu cyngor yn darparu gwasanaethau o safon uchel, yn ôl awdurdod lleol (diwygiedig)**




Gofynnwyd y cwestiwn hwn hefyd yn [Arolwg Cartrefi'r Alban 2012](), lle cytunodd 44% o bobl yr Alban bod eu 'cyngor lleol yn darparu gwasanaethau o safon uchel'[21].


[20] Gweler Tabl 10 yn yr Atodiad i weld y canlyniadau yn fwy manwl, gan gynnwys cyfyngau hyder.

[21] Cyn cwestiwn yr Arolwg Cenedlaethol ar wasanaethau awdurdodau lleol, ceir eglurhad o'r gwasanaethau y dylai pobl eu hystyried, ac nid yw Arolwg Aelwydydd yr Alban yn gwneud hynny. Mae Arolwg Aelwydydd yr Alban yn cynnwys y cwestiwn hwn ymysg llu o gwestiynau am wasanaethau lleol, a gaiff eu cylchdroi ar hap, sy'n lleihau'r graddau y gellir ei gymharu â'r Arolwg Cenedlaethol. Mae'r Arolwg hefyd yn cwmpasu cyfnod amser cynharach (2012, o'i gymharu â 2013-14 ; er bod yr Arolwg Cenedlaethol 2012-13 yn dangos lefelau uwch o foddhad yng Nghymru hefyd).Ceir rhagor o wybodaeth am y graddau y gellir cymharu cwestiynau yn yr adroddiad 'Arolwg Cenedlaethol Cymru: Astudiaeth ar gymharedd cwestiynau'

Dangosodd ymchwil blaenorol fod y mwyafrif helaeth o'r amrywiad mewn boddhad cyffredinol â gwasanaethau awdurdodau lleol o ganlyniad i wahaniaethau rhwng unigolion, ac nid i ba awdurdod lleol y maent yn byw ynddo[22] Dangosodd yr un ymchwil mai'r ffactorau allweddol sy'n dylanwadu ar foddhad cyffredinol pobl oedd eu barn ar pa mor dda mae eu hardal yn cael ei gynnal a'i chadw, a'u barn ar ba mor dda y mae'r awdurdod lleol yn cyfathrebu am ei berfformiad.

Gofynnwyd i bobl a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad 'mae fy nghyngor yn dda am adael i bobl leol wybod pa mor dda y mae'n perfformio'. Yn gyffredinol, roedd 41% o bobl yn cytuno â'r datganiad; roedd hyn yn amrywio rhwng 29% yng Ngheredigion i 56%yng Nghaerffili[23] fel y dangosir yn Siart 13.[24] Nid yw cyfran y bobl a oedd yn cytuno gyda'r datganiad wedi newid yn sylweddol ers y llynedd, ond roedd y gyfran a oedd yn anghytuno gyda'r datganiad wedi cynyddu o 37% yn 2012-13 i 40% yn 2013-14. Digwyddodd hyn am fod llai o bobl yn dweud eu bod 'ddim yn cytuno nac yn anghytuno'.

**Siart 13: Y gyfran sy'n cytuno neu'n anghytuno bod eu cyngor yn dda am adael i bobl leol wybod pa mor dda y mae'n perfformio, yn ôl awdurdod lleol (diwygiedig)**




Tebyg i foddhad cyffredinol gyda gwasanaethau, dangosodd gwaith ymchwil blaenorol fod y mwyafrif helaeth o'r amrywiad yn y farn bod eu 'cyngor yn dda am adael i bobl leol wybod pa mor dda y mae'n perfformio' yn ganlyniad i wahaniaethau rhwng unigolion, ac nid i ba awdurdod lleol y maent yn byw ynddo[22]. Fel y nodwyd uchod, canfu'r un ymchwil bod canfyddiadau pobl o ba mor dda y mae'r awdurdod lleol yn cyfathrebu am ei berfformiad yn yrrwr allweddol o foddhad cyffredinol â gwasanaethau awdurdodau lleol.

Yn dilyn y cwestiwn hwn, gofynnwyd i bobl a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad 'hoffwn gael mwy o wybodaeth am sut mae fy nghyngor yn perfformio'. Yn gyffredinol, roedd 52% o bobl yn cytuno â'r datganiad. Mae Siart 14 yn dangos fod hyn yn amrywio rhwng 40% yn Sir Benfro i 64% yng Nghastell-nedd Port Talbot.[25]

---


[22] Gweler yr adroddiad ar foddhad gyda gwasanaethau llywodraeth lleol sy'n seiliedig ar ganlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol yn 2012-13.

[23] Diwygiedig: Mae'r awdurdodau lleol wedi cael eu diwygio ynghyd â'r siart, ar ol I ni sylwi gwallau yn y siart gwreiddiol.

[24] Gweler Tabl 11 yn yr Atodiad i weld y canlyniadau yn fwy manwl, gan gynnwys cyfyngau hyder.

[25] Gweler Tabl 12 yn yr Atodiad i weld y canlyniadau yn fwy manwl, gan gynnwys cyfyngau hyder.

**Siart 14: Y gyfran sy'n cytuno neu'n anghytuno yr hoffent gael mwy o wybodaeth am sut mae eu cyngor yn perfformio, yn ôl awdurdod lleol (diwygiedig)**




Fel yn achos y datganiad uchod, nid yw'r gyfran oedd yn cytuno wedi newid; fodd bynnag, mae'r gyfran sy'n anghytuno wedi cynyddu o 29% yn 2012-13 i 32% yn 2013-14. Unwaith eto, mae hyn oherwydd y gostyngiad yn y gyfran o bobl oedd yn 'ddim yn cytuno nac yn anghytuno' gyda'r datganiad.

## Addysg

Roedd yr Arolwg Cenedlaethol yn cynnwys cyfres o gwestiynau am fodlonrwydd rhieni ar ysgolion a'u profiad o ddelio ag ysgolion ac athrawon eu plant. Gofynnwyd hefyd iddynt am y dyheadau sydd ganddynt ar gyfer eu plant pan fyddant yn gadael yr ysgol yn 16 oed, a pha mor aml maent yn treulio amser gyda'u plant yn gwneud gweithgareddau amrywiol. Gofynnwyd am farn rhieni a rhai nad ydynt yn rhieni hefyd am y system addysg yng Nghymru.


Defnyddir canlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol ynghyd â ffynonellau data eraill (adroddiadau arolygiadau, canlyniadau arholiadau, ac ati) i roi asesiad ehangach i Llywodraeth Cymru am ansawdd gwasanaethau addysg. Bydd y dystiolaeth yn cefnogi'r camau gweithredu a nodir yn y cynllun Gwella Ysgolion sy'n nodi pa mor dda y caiff blaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru gael eu cyflawni. Bydd hefyd yn bwydo i werthusiadau o raglenni a pholisïau'r Llywodraeth Cymru gan gynnwys astudiaethau o effeithiolrwydd diwygiadau gwella ysgolion.

## Bodlonrwydd ar ysgolion cynradd ac uwchradd

Gofynnodd yr Arolwg Cenedlaethol gyfres o gwestiynau i rieni am eu bodlonrwydd ar ysgolion cynradd ac uwchradd eu plant a ariennir gan yr awdurdod lleol.[26] Cafodd cyfres debyg o gwestiynau ei chynnwys yn yr Arolwg Byw yng Nghymru yn 2006, a lle y bo'n briodol, gwnaed cymariaethau â'r arolwg hwnnw.

Canfu'r Arolwg Cenedlaethol fod 92% o rieni yn fodlon (naill ai'n eithaf bodlon neu'n fodlon iawn) ar yr ysgol gynradd yr oedd eu plentyn yn ei mynychu ac roedd 85% yn fodlon ar yr ysgol uwchradd yr oedd eu plentyn yn ei mynychu. Cafwyd canlyniadau tebyg yn yr Arolwg Byw yng Nghymru yn 2006 (roedd 93% o rieni yn fodlon ar ysgol gynradd eu plentyn, ac roedd 86% yn fodlon ar yr ysgolion uwchradd). Dengys Siart 15 bod rhieni ychydig yn llai bodlon ar yr ysgolion uwchradd na'r ysgolion cynradd. (Gweler Tabl 13 yn yr Atodiad am fwy o fanylion).

**Siart 15 Canran o rieni sy'n fodlon ar ysgol gynradd ac uwchradd eu plentyn**




Yn yr Arolwg Cenedlaethol yn 2013-14 roedd 68% o rieni yn 'fodlon iawn' ar yr ysgolion cynradd, o gymharu dim ond 48% a oedd yn 'fodlon iawn' ar yr ysgolion uwchradd[27].


[26] Gofynnwyd i ymatebwyr ystyried eu profiadau dros y 12 mis diwethaf. Gofynnwyd y cwestiynau hyn i warcheidwaid cyfreithiol hefyd a chânt eu categoreiddio fel 'rheini' yn y bwletin hwn.
[27] Gweler yr adroddiad ar foddhad ag addysg I gael dadansoddiad pellach o'r ffactorau allweddol sy'n dylanwadu ar foddhad rhieni gydag ysgolion, sy'n seiliedig ar ganlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol yn 2012-13.

Mae Adroddiad Ofsted a gyhoeddwyd yn 2006 ar ysgolion yn Lloegr yn cyflwyno darlun tebyg o foddhad rhieni gydag ysgolion. Daeth i'r casgliad bod boddhad yn gyffredinol yn cysylltu'n gryf ag effeithiolrwydd ysgolion a chyrhaeddiad disgyblion. Dywedodd fod anfodlonrwydd rhieni ag ysgolion yn fwy amlwg mewn ysgolion uwchradd lle bod cyflawniad yn anfoddhaol neu'n wael, ond bod hyn yn llai amlwg mewn ysgolion cynradd. Awgrymodd y gallai hyn adlewyrchu'r ffocws gan rieni ar ganlyniadau addysgol yn y cyfnod uwchradd, neu gred rhieni bod agweddau ehangach ar addysg, megis datblygiad cymdeithasol, yn fwy pwysig yn y cyfnod cynradd.

## Profiad o ddelio ag ysgolion

Mae'r cynllun Gwella Ysgolion yn amlinellu'r angen i ysgolion i ymgysylltu â rhieni a datblygu perthynas ddwyffordd er mwyn gwella canlyniadau dysgu. Gofynnwyd i rieni felly am agweddau penodol o ddelio ag ysgol gynradd neu uwchradd eu plentyn. Gofynnwyd iddynt i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â thri datganiad am eu profiad o ddelio ag ysgol gynradd/uwchradd eu plentyn. Dangosir y datganiadau a'r ymatebion a roddwyd yn Siart 16.

**Siart 16: Canran y rhieni a oedd yn 'tueddu i gytuno' neu'n 'cytuno'n gryf' â'r datganiadau am eu profiad o ddelio ag ysgolion (a)**




(a) Mae 'Cytuno' yn cael ei ddiffinio fel y rhai a ddywedodd 'cytuno'n gryf' a 'tueddu i gytuno'

- Cytunodd 96% o rieni plant ysgol gynradd iddynt allu cwrdd ag athro eu plentyn o fewn cyfnod rhesymol, o gymharu â 86% o rieni plant ysgol uwchradd.

- Roedd 94% o rieni plant ysgol gynradd a 86% o rieni plant ysgol uwchradd o'r farn eu bod yn cael yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt am ddatblygiad eu plentyn

- Roedd 87% o rieni plant ysgol gynradd a 83% o rieni plant ysgol uwchradd o'r farn eu bod yn cymryd cymaint o ran ag yr oeddent am ei gymryd mewn penderfyniadau am addysg eu plentyn.

Cyflwynwyd datganiad newydd yn 2013-14 a oedd yn gofyn i rieni a oeddent deall sut oedd cynnydd eu plant yn cael ei hasesu. Roedd 91% o rieni plant ysgol gynradd a 82% o rieni plant ysgol uwchradd yn teimlo eu bod yn deall.

Gofynnwyd i rieni hefyd a oeddent o'r farn eu bod yn cael gwybod am berfformiad ysgol eu plentyn. Roedd 85%o rieni plant ysgol gynradd a 82%o rieni ysgol uwchradd o'r farn eu bod yn cael gwybod am berfformiad ysgol eu plentyn.

Canfuwyd canlyniadau tebyg yn yr Arolwg Byw yng Nghymru 2006 (ac eithrio'r cwestiwn am gael yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt am ddatblygiad eu plentyn, nad oedd wedi'u cynnwys yn yr arolwg hwnnw).

## Ymgysylltiad rhieni â'u plant


Mae ymchwil wedi dangos yn gyson y gall rhieni cefnogol ac amgylchedd dysgu da yn y cartref helpu i wella datblygiad gwybyddol plentyn a gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'w gyflawniad yn yr ysgol. Er enghraifft, rydym yn gwybod fod amrywiaeth o weithgareddau (fel chwarae gyda llythrennau a rhifau, darllen gyda'r plentyn ac addysgu caneuon a rhigymau) yn gysylltiedig â chanlyniadau cadarnhaol pan fyddant yn 3 a 7 oed.[28]

O ganlyniad, mae Llywodraeth Cymru'n awyddus i gael gwybod faint o amser mae rhieni'n ei dreulio yn gwneud gweithgareddau amrywiol gyda phlant o bob oed. Gofynnodd yr Arolwg Cenedlaethol

[28] Gweler yr adroddiad ar Ddarpariaeth Effeithiol Addysg Cyn Ysgol

gyfres o gwestiynau i rieni plant rhwng 3 a 7 oed am ba mor aml maent yn edrych ar lyfrau neu'n darllen storïau i'w plant, helpu eu plant i adnabod llythrennau, rhifau neu siapiau neu ddysgu amdanynt, helpu eu plant i ddarllen neu ysgrifennu, a helpu eu plant gyda gwaith ysgol. Dangosir y canlyniadau yn Siart 17.

**Siart 17: Pa mor aml yr oedd rhieni'n gwneud gweithgareddau penodol gyda'u plant rhwng 3 a 7 oed**




- Roudd tua 82% o rhieni yn darllen gyda'u plentyn o leiaf sawl gwaith yr wythnos.
- Roedd canran tebyg yn helpu eu plentyn i ddysgu am lythrennau, rhifau neu siapiau (81%) a'i helpu i ddarllen neu ysgrifennu sawl gwaith yr wythnos (76%)
- Roedd tua 53% yn helpu eu plentyn gyda gwaith ysgol o leiaf sawl gwaith yr wythnos

Mae'n bwysig nodi mai dim ond y rhiant a ddewiswyd ar hap i'w gyfweld y gofynnodd yr Arolwg Cenedlaethol iddo faint o amser yr oedd yn ei dreulio'n gwneud gweithgareddau amrywiol gyda'i blentyn. Ni ofynnodd am yr amser yr oedd y rhiant arall neu oedolyn arall yn ei dreulio'n gwneud yr un gweithgareddau gyda'i blentyn.

Gofynnodd Astudiaeth Carfan y Mileniwm gwestiynau tebyg i rieni pan oedd eu plentyn wedi cyrraedd 3, 5 a 7 oed. Pan oedd y plant yn 3 oed, roedd 62% o famau yn darllen i'w plentyn bob dydd, ac roedd 22% o dadau yn gwneud yr un fath. Pan oedd yn 5 oed, roedd 50% o famau a 15% o dadau yn darllen i'w plentyn bob diwrnod. Ac erbyn iddynt gyrraedd 7 oed, roedd 39% o famau a 13% o dadau yn darllen i'w plentyn bob diwrnod. Arolwg hydredol yw Astudiaeth Carfan y Mileniwm a chaiff ei chynnal ar gamau gwahanol o fywyd plentyn, ac er bod y cwestiynau'n debyg, ni ellir cymharu'r canlyniadau'n uniongyrchol â'r Arolwg Cenedlaethol.


Gofynnwyd cyfres debyg o gwestiynau o rieni yn Panel Unigolion 2005 Llywodraeth Cymru a oedd wedi gofyn ymatebwyr a phlant pa weithgareddau, os o gwbl, yr oeddynt wedi'i wneud gyda'u plant rhwng 3 a 7 oed yn ystod y 12 mis diwethaf. Roedd 96% o rieni wedi edrych ar lyfrau/darllen straeon i'w plentyn, 88% wedi'i helpu i ddarllen, 86% yn ei helpu i adnabod/dysgu am lythrennau, rhifau neu siapiau ac ychydig dros dri chwarter wedi helpu eu plentyn gyda gwaith ysgol arall (79%).
Ar gyfer plant hŷn, rhwng 8 a 17 oed, ceir tystiolaeth bod y rhan y mae'r rhieni'n ei chwarae yn parhau i gael effaith sylweddol ar eu cyflawniad yn ystod eu blaen lencyndod a hyd yn oed pan fyddant yn oedolion. Canfu ymchwil gan ddefnyddio data o'r Astudiaeth Genedlaethol o Ddatblygiad Plant i archwilio'r effaith a gaiff y rhan y mae'r rhieni ei chwarae ar gyflawniad erbyn i blentyn gyrraedd 16 oed

Ar gyfer rhieni plant rhwng 8 a 17 oed, gofynnodd yr Arolwg Cenedlaethol gyfres o gwestiynau am ba mor aml roeddent: yn trafod y newyddion neu raglenni dogfen gyda'u plant; yn helpu eu plant i ddarllen neu gyfeirio at lyfrau, cylchgronau neu bapurau newydd; yn helpu eu plant i ddefnyddio'r rhyngrwyd at ddibenion addysgol[29]; ac yn helpu eu plant gyda gwaith ysgol.[30]

[29] Yn 2012-13 Gofynnodd yr Arolwg Cenedlaethol os oedd rhieni helpu eu plentyn i chwilio am wybodaeth ar gyfrifiadur. Mae'r cwestiwn hwn yn ei newid yn 2013-14 i ofyn am edrych am wybodaeth 'at ddibenion addysgol' ac felly nid ydynt yn gymaradwy.

Dangosir canlyniadau'r cwestiynau hyn yn Siart 18.

**Siart 18: Pa mor aml yr oedd rhieni'n gwneud gweithgareddau penodol gyda'u plant rhwng 8 a 17 oed**




- Roedd 53% o rieni'n helpu gyda gwaith ysgol o leiaf sawl gwaith yr wythnos. Roedd canran tebyg yn trafod y newyddion neu raglenni dogfen gyda'u plentyn ysgol o leiaf sawl gwaith yr wythnos (48%).
- Roedd rhieni'n llai tebygol o helpu eu plentyn i ddefnyddio'r rhyngrwyd at ddibenion addysgol, gyda 33% yn nodi nad oeddent byth yn gwneud hynny.

Gofynnwyd cyfres debyg o gwestiynau yn Panel Unigolion 2005 Llywodraeth Cymru a oedd wedi gofyn i rieni oedd â phlant 8 oed neu hŷn gartref a oeddent wedi gwneud rhestr o weithgareddau yn ystod y 12 mis diwethaf i ategu at ddysgu eu plentyn. Roedd 82% wedi helpu eu plentyn gyda'i waith ysgol, roedd 70% wedi trafod y newyddion neu raglenni dogfen gyda'u plentyn, roedd 67% wedi helpu eu plentyn i chwilio am wybodaeth ar gyfrifiadur neu'r rhyngrwyd, ac roedd 63% wedi helpu eu plentyn i ddarllen neu gyfeirio at lyfrau, cylchgronau neu bapurau newydd. Ni ellir cymharu'r cwestiynau yn yr arolwg hwn gyda chanlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol, ond maent yn rhoi ffynhonnell ychwanegol o wybodaeth am weithgareddau rheini gyda phlant.

Mae'r Arolwg Cenedlaethol hefyd yn cynnwys cwestiynau am fynediad at y rhyngrwyd yn y cartref (gweler yr adran ar fynediad i'r Rhyngrwyd). Roedd 93% o blant 0 i 15 oed yn byw mewn cartrefi lle'r oedd ganddynt fynediad i'r rhyngrwyd. Roedd hyn yn amrywio yn ôl amddifadedd ardal. Roedd gan 99% o blant yn y 20% o'r ardaloedd lleiaf difreintiedig Cymru fynediad i'r rhyngrwyd yn y cartref, mae hyn yn cymharu â 86% o blant a oedd yn byw yn y 20% mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Gofynnodd yr Arolwg Cenedlaethol i rieni plant rhwng 11 a 15 oed beth yr hoffent i'w plentyn ei wneud pan fydd wedi cyrraedd 16 ac yn gallu gadael yr ysgol. Cafodd y cwestiwn hwn ei gynnwys oherwydd bod tystiolaeth y gall agweddau a dyheadau rhieni (a phlant eu hunain) fod yn ddangosydd defnyddiol o gyflawniad addysgol plant. Roedd 81% o rieni am i'w plentyn aros mewn addysg llawn amser, roedd 10% am i'w plentyn fynd ar gwrs hyfforddi neu ddechrau prentisiaeth a dywedodd 6% mai penderfyniad eu plentyn oedd.

## Safbwyntiau ar y system addysg yng Nghymru

Ers datganoli, mae polisïau addysg pedair gwlad y DU wedi ymwahanu: er enghraifft, yn Lloegr cyflwynwyd diwygiadau yn seiliedig ar amrywiaeth o fathau o ysgolion a dewis rhieni; yng Nghymru (a'r Alban) erys ymrwymiad i ysgolion cyfun yn y gymuned. Felly, mae Llywodraeth Cymru am ganfod barn pobl ar y system addysg yng Nghymru, o groes-doriad o bobl (nid rhieni yn unig).

Gofynnodd Arolwg Cymdeithasol Ewrop y cwestiwn canlynol:

Beth yw eich barn gyffredinol am gyflwr addysg yn [y wlad] ar hyn o bryd?
Roedd 0 yn cyfleu 'eithriadol o wael'... a 10 yn cyfleu 'eithriadol o dda'

---


[30] Gweler yr adroddiad ar foddhad ag addysg I gael dadansoddiad pellach o'r ffactorau allweddol sy'n dylanwadu ar foddhad rhieni gydag ysgolion, sy'n seiliedig ar ganlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol yn 2012-13.

Gofynnodd yr Arolwg Cenedlaethol yr un cwestiwn, er mwyn sicrhau y gellir gwneud rhai cymariaethau gyda gwledydd ledled Ewrop.[31] Mae'r ymateb cyfartalog a roddwyd ar gyfer Arolwg Cenedlaethol yn 6.3. Mae cyfran y bobl a atebodd "Ddim yn gwybod" i'r cwestiwn hwn yn 11% (15% ar gyfer pobl mewn cartrefi heb blant o dan 19, 3% ar gyfer y cartrefi gyda phlant o dan 19). Fel ar gyfer pob cwestiwn arall, nid ydym wedi cynnwys atebion "Ddim yn gwybod" yn y dadansoddiad.

Roedd y cyfartaledd cenedlaethol y DU (5.9) a sgôr cyfartalog ar draws gwledydd Ewrop (5.0) a geir yn yr Arolwg Cymdeithasol Ewrop 2012 yn is na chyfartaledd Arolwg Cenedlaethol Cymru (6.3). Nodwch ar gyfer cymariaethau manwl gyda gwledydd Ewropeaidd eraill, dylai canlyniadau'r Arolwg Cymdeithasol Ewrop o 2012 gael ei chymharu â chanlyniadau Arolwg Cenedlaethol o 2012-13. Mae'r cymariaethau hyn ar gael yn yr adroddiad ar wahân.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru'n gyfrifol am eu cyllideb addysg. Cânt gyfle sylweddol i benderfynu faint o arian y gellir ei ddefnyddio i ddiwallu anghenion a chyflawni blaenoriaethau lleol. Dangosir y graddau bodlonrwydd gyda'r system addysg a roddir ym mhob awdurdod lleol yn Siart 19.

**Siart 19: Cyflwr addysg, yn ôl awdurdod lleol (a)**




(a) Rhoddwyd atebion ar raddfa rhwng dim (eithriadol o wael) a deg (eithriadol o dda)

Pobl yn Sir y Fflint roddodd y radd uchaf am gyflwr yr addysg, gan roi sgôr o 6.7, a phobl yn Rhondda Cynon Taf a roddodd y radd isaf 6.0.[32]

## Lles

Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru yn nodi'r bwriad i wella lles hirdymor pobl Cymru. Gwnaeth Llywodraeth Cymru ymrwymiad i ddwyn ynghyd ddangosyddion allweddol lles, i roi darlun lefel uchel o les yng Nghymru. Mae lles unigolion yn elfen graidd o'r darlun hwn. Mae lles yn cynnwys teimladau o hapusrwydd ac agweddau eraill ar les goddrychol, megis teimlo bod y gweithgareddau rydych yn ymgymryd â hwy yn werth chweil, neu fod yn fodlon ar eich cydberthnasau personol. Mae hefyd yn cynnwys agweddau ar les y gellir eu mesur drwy ddulliau mwy gwrthrychol, megis disgwyliad oes a chyflawniadau addysgol. Mae gan les cysylltiadau pwysig gyda boddhad â gwasanaethau cyhoeddus: er enghraifft, mae ymchwil blaenorol sy'n seiliedig ar y canlyniadau 2012-13

---

[31] Fel y nodwyd yn flaenorol, mae gwahaniaethau rhwng Arolwg Cymeithasol Ewrop a'r Arolwg Cenedlaethol y dylid eu cadw mewn cof wrth gymharu canlyniadau: Er enghraifft, mae cyflwyniad I gwestiwn yrArolwg Cenedlaethol sy'n annog ymatebwyr i feddwl am ddarpariaeth addysg yn gyfan gwbl. Ceir rhagor o wybodaeth am gymharedd yn yr adroddiad 'Arolwg Cenedlaethol Cymru: Astudiaeth ar gymharedd cwestiynau' Ceir cymariaethau manylach rhwng canlyniadau Ewrop 2012 a'r Arolwg Cenedlaethol 2012- yn yr adroddiad ar foddhad gyda gwasanaethau cyhoeddus.


[32] Gweler Tabl 17 yn yr Atodiad i weld y canlyniadau yn fwy manwl, gan gynnwys cyfyngau hyder.

yr Arolwg Cenedlaethol wedi canfod bod boddhad cyffredinol uwch ag iechyd, addysg a thrafnidiaeth yn gysylltiedig â theimlo'n hapus a teimlo bod bywyd yn werth chweil. Mae ymchwil arall, yn seiliedig ar y canlyniadau 2012-13 Arolwg Cenedlaethol, wedi canfod cysylltiadau rhwng boddhad rhieni gyda'r gymdogaeth a lles eu plant ar y naill law, a hefyd eu boddhad gydag ysgolion a'u hymgysylltiad gyda dysgu eu plant.

Yn 2013-14, roedd yr Arolwg Cenedlaethol wedi cynnwys cyfres o gwestiynau o fodiwl arolwg ar les yr Ystadegau'r Undeb Ewropeaidd ar Incwm ac Amodau Byw (EU-SILC). Cafodd y rhain eu cynnwys yn yr Arolwg Cenedlaethol i gasglu gwybodaeth ynglŷn â lles goddrychol pobl fel y gellir eu cymharu â gwledydd ar draws Ewrop[33]. Noder nad yw'r canlyniadau a nodir isod yn angenrheidiol yn awgrymu bod y ffactorau amrywiol a grybwyllir (oedran, statws cyflogaeth, ac ati) yn effeithio'n uniongyrchol ar lefelau lles. Mae'r berthynas yn debygol o fod yn fwy cymhleth.[34]

Gofynnodd yr Arolwg Cenedlaethol i bobl nodi ar raddfa o ddim (ddim yn fodlon o gwbl) i ddeg (cwbl fodlon) yr oeddent ar wahanol agweddau ar eu bywydau. Dangosir y sgorau a roddir ar siart 20 isod.

**Siart 20: Bodlonrwydd ar wahanon agweddau bywyd (a)**




(a) Rhoddwyd atebion ar raddfa o ddim (ddim yn fodlon o gwbl) i ddeg (cwbl fodlon)

O'r agweddau gwahanol ar fywyd, roedd pobl fwyaf bodlon ar eu cydberthnasau personol, lle cafwyd sgôr gyfartalog o 8.6 allan o 10. Roedd pobl fwyaf anfodlon ar sefyllfa ariannol eu cartref lle cafwyd sgôr gyfartalog o 6.9.

Ar gyfer pob agwedd o fywyd, rhoddod y bobl a oedd yn byw mewn ardal wledig sgoriau uwch ar gyfartaledd na'r rhai a oedd yn byw mewn ardaloedd trefol, gyda'r gwahaniaeth mwyaf nodedig am y sgoriau a roddwyd am 'ansawdd yr amgylchedd byw', lle gwnaeth y bobl oedd yn byw mewn ardaloedd gwledig rhoi sgôr cyfartalog o 8.6, o gymharu â 7.7 ar gyfer ardaloedd trefol. Fodd bynnag dangosodd dadansoddiad pellach ar les o'r ddata'r Arolwg Cenedlaethol yn 2012-13, ar ôl rheoli ar gyfer pethau fel iechyd, straen ariannol a statws cyflogaeth, doedd byw mewn ardal drefol ddim yn gysylltiedig â lles isel mwyach.

Y sgôr gyfartalog a roddwyd ar gyfer bodlonrwydd ar fywyd oedd 7.7, sydd ychydig yn llai na'r sgôr a roddwyd ar gyfer yr un cwestiwn yn y flwyddyn flaenorol (7.8). Pobl ifanc rhwng 16 a 24 oed oedd

[33] Bydd data Ystadegau'r Undeb Ewropeaidd ar Incwm ac Amodau Byw EU-SILC ar gael yn ystod Haf 2014
[34] Yn 2012-13, gwnaeth yr Arolwg Cenedlaethol yn cynnwys set wahanol o gwestiynau lles a ddatblygwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS). Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi cyhoeddi ystod o erthyglau ar hyn fel rhan o'u rhaglen Lles Cenedlaethol y DU. Mae dadansoddiad mwy manwl o'r holl gwestiynau lles o Arolwg Cenedlaethol 2012-13 ar gael yma.

fwyaf bodlon ar eu bywydau, gan roi sgôr gyfartalog o 7.9. Pobl rhwng 45 a 64 oed oedd lleiaf bodlon, gan roi sgôr gyfartalog o 7.5.


Gofynnodd yr SYG yr un cwestiwn yn ei Harolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn 2011-12 a 2012-13 a chanfu fod y sgôr ar gyfer bodlonrwydd bywyd yn y DU wedi codi o 7.4 i 7.5.[35]

Cynhaliwyd yr Arolwg Ansawdd Bywyd Ewropeaidd (2012) rhwng mis Medi 2011 a mis Chwefror 2012. Roedd yn cynnwys rhai cwestiynau tebyg ar les goddrychol. Cyfartaledd y DU ar gyfer boddhad gyda'u bywyd oedd 7.3, a'r cyfartaledd ar draws Ewrop oedd 7.1; mae'r ddau ffigwr rhywfaint yn is na'r ffigwr Arolwg Cenedlaethol Cymru (7.7).

Ar gyfer pob agwedd ar fywyd a restrir yn siart 20, rhoddodd pobl sydd ag iechyd gwael, neu sy'n cael trafferth i ymdopi â biliau neu ymrwymiadau ariannol a'r rhai sy'n teimlo nad ydynt yn perthyn i'w hardal, sgorau cyfartalog llai na'r rhai sydd ag iechyd da, sy'n gallu ymdopi â'u biliau a'r rhai sy'n teimlo eu bod yn perthyn i'w hardal.

Gofynnodd yr Arolwg Cenedlaethol hefyd gyfres o gwestiynau i asesu lles meddyliol pobl. Gofynnodd faint o weithiau yn ystod y 4 wythnos ddiwethaf yr oeddent wedi teimlo'n nerfus iawn, mor isel nad oedd modd codi eu calon, yn llonydd a'n heddychlon yn ddigalon ac isel eu hysbryd, ac yn hapus. Dangosir y canlyniadau yn siart 23 isod.

**Siart 21: Cyfran a brofodd emosiynau yn y pedair wythnos ddiwethaf**





Fel y gwelir yn siart 23, dim ond cyfran fach o bobl oedd yn teimlo'n 'nerfus iawn', 'mor isel nad oedd modd codi eu calon', yn 'ddigalon ac isel eu hysbryd', bob amser neu am y rhan fwyaf o'r amser (7%, 6% a 6% yn y drefn honno). Dywedodd 51% nad oeddent wedi teimlo'n 'nerfus iawn' o gwbl yn y 4 wythnos ddiwethaf, nid oedd 58% wedi teimlo'n 'mor isel doedd dim modd codi eu calon', ac nid oedd 56% wedi teimlo'n ddigalon ac yn isel eu hysbryd. Mae'r siart yn dangos bod y tri emosiwn negyddol hyn yn dilyn patrwm tebyg. Roedd hyn hefyd yn wir wrth ystyried yr emosiynau hyn yn ôl statws iechyd a'r gallu i ymdopi â'r biliau. Roedd y rhai hynny oedd ag iechyd gwael neu'r rhai a oedd yn cael trafferth ymdopi â'u biliau yn fwy tebygol o deimlo'n teimlo'n 'nerfus iawn', 'mor isel nad oedd modd codi eu calon' ac yn 'ddigalon ac isel eu hysbryd'. Fodd bynnag, o ran oedran, nid oedd y tri emosiwn negyddol yn dilyn yr un patrwm. Roedd pobl ifanc yn fwy tebygol na phobl hŷn o deimlo'n 'nerfus iawn', fodd bynnag nid oedd cydberthynas rhwng oedran a theimlo 'mor isel nad oedd modd codi eu calon' ac rhai oedd yn 'ddigalon ac isel eu hysbryd'.

Mae Siart 21 yn dangos bod 77% o bobl naill ai'n teimlo'n hapus bob amser (14%) neu'r rhan fwyaf o'r amser (63%) tra bod 61% yn teimlo'n 'llonydd a'n hedychlon' naill ai bob amser (10%) neu'r rhan fwyaf

[35] Canfu canlyniadau tebyg i'r APS yn yr Arolwg Barn a Ffordd o Fyw (Ebrill-Awst 2011).

o'r amser (52%), gyda dim ond canran fach o bobl yn nodi nad ydynt wedi teimlo'n hapus (1%) nac yn 'llonydd a'n hedychlon' (4%) dros y 4 wythnos ddiwethaf. Mae Siart 22 yn nodi'r gydberthynas rhwng iechyd hunan cofnodedig pobl a pha mor aml yr oeddent wedi teimlo'n ddigynnwrf ac yn dawel eu meddwl, ac yn hapus yn ystod y 4 wythnos ddiwethaf.

**Siart 22: Cyfran oedd yn teimlo'n hapus neu'n llonydd a heddychlon drwy'r amser neu'r rhan fwyaf o'r amser yn ystod y 4 wythnos diwethaf, yn ôl iechyd cyffredinol**





- Dywedodd 70% o bobl a oedd ag iechyd da iawn eu bod yn teimlo'n ' llonydd a'n hedychlon' bob amser neu'r rhan fwyaf o'r amser dros y 4 wythnos ddiwethaf. Gellir cymharu hyn â dim ond 31% o bobl sydd ag iechyd gwael iawn.
- Dywedodd 88% o bobl sydd ag iechyd da iawn eu bod yn hapus y rhan fwyaf o'r amser neu drwy'r amser dros y 4 wythnos ddiwethaf. Gellir cymharu hyn â dim ond 36% o bobl sydd ag iechyd gwael iawn.

## Ymddiriedaeth mewn pobl a sefydliadau

Cafodd cyfres o gwestiynau eu cynnwys fel rhan o'r cwestiynau a ddatblygwyd gan Ystadegau'r Undeb Ewropeaidd ar Incwm ac Amodau Byw (EU-SILC) ynglŷn ag ymddiriedaeth pobl yn y system wleidyddol, yr heddlu, y system gyfreithiol a phobl eraill. Gofynnwyd i ymatebwyr nodi ar raddfa o 0 (ddim yn ymddiried o gwbl) i 10 (ymddiried yn llawn).

**Siart 23: Sgorau cyfartalog ar gyfer ymddiriedaeth yn y 'rhan fwyaf o bobl', y system wleidyddol, yr heddlu a'r system gyfreithiol (a)**




(a) Rhoddwyd atebion ar raddfa o 0 (ddim yn ymddiried o gwbl) i 10 (ymddiried yn llawn).

- Rhoddodd pobl sgôr gyfartalog o 6.6 allan o 10 ynglŷn â'u hymddiriedaeth yn y rhan fwyaf o bobl; roedd sgôr eu hymddiriedaeth yn yr heddlu yn ail agos, sef 6.5.

- Roedd pobl yn ymddiried yn y system gyfreithiol ychydig yn llai, gan roi sgôr gyfartalog o 5.7. Roedd ymddiriedaeth yn y system wleidyddol yn arbennig o isel sef 4.3.

Rhoddodd pobl mewn ardaloedd mwy difreintiedig sgoriau ymddiriedaeth is o'u cymharu rhai mewn ardaloedd llai difreintiedig. Rhoddodd bobl yn y 20% o'r ardaloedd lleiaf difreintiedig Cymru sgôr cyfartalog o 6.9 ar gyfer eu hymddiriedaeth yn 'rhan fwyaf o bobl', 6.8 ar gyfer yr heddlu, 6.0 ar gyfer y system gyfreithiol a 4.5 ar gyfer y system wleidyddol. Mae hyn yn cymharu â ffigurau yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig fel hyn: 6.0 ar gyfer ymddiriedaeth yn y 'rhan fwyaf o bobl', 6.3 ar gyfer yr heddlu, 5.5 ar gyfer y system gyfreithiol, a 4.2 ar gyfer y system wleidyddol[36].

Gofynnodd yr Arolwg Gymdeithasol Ewrop 2012 rhai cwestiynau tebyg am ymddiriedaeth mewn sefydliadau cenedlaethol. Ar gyfer ymddiriedaeth yn yr heddlu y sgôr cyfartaledd y DU oedd 6.6 a'r cyfartaledd ar draws pob un o'r 29 o wledydd Ewrop oedd 5.3. Ar gyfer ymddiriedaeth yn y 'system gyfreithiol' sgôr gyfartalog y DU oedd 5.6 a'r cyfartaledd ar draws pob un o'r 29 o wledydd Ewrop oedd 4.4. Ar gyfer ymddiriedaeth yn ' ngwleidyddion ' (yn hytrach na'r system wleidyddol), y sgôr gyfartalog y DU oedd 3.7 a'r cyfartaledd ar draws pob un o'r 29 o wledydd Ewrop oedd 3.0. Ar gyfer ymddiriedaeth yn 'senedd y wlad' (yn hytrach na'r system wleidyddol), y sgôr gyfartalog y DU oedd 4.3; a'r cyfartaledd ar draws pob un o'r 29 o wledydd Ewrop oedd 3.7.

Mae cymariaethau rhwng Arolwg Cymdeithasol Ewrop a'r Arolwg Cenedlaethol Cymru yn tueddu i ddangos nad oedd y ffigurau cyfartalog a roddir ar gyfer ymddiriedaeth mewn sefydliadau yng Nghymru yn annhebyg i'r DU cyfan, ond yn sylweddol yn uwch na'r cyfartaledd ar draws y 29 o wledydd Ewropeaidd. Fodd bynnag, mae nifer o wahaniaethau rhwng yr arolygon y dylid eu nodi[37].

36 Gweler tabl 21 yn yr Atodiad.


37 Efallai y bydd y cwestiynau eraill a ofynnwyd yn y ddau arolwg yn effeithio ar ymatebion i'r cwestiynau hyn; mae rhai gwahaniaethau o ran geiriad y cwestiwn; a'r cyfnodau amser a gwmpesir gan y ddau arolwg. Mae canlyniadau Arolwg Gymdeithasol Ewrop yn seiliedig ar waith maes a gynhaliwyd ym mis Medi i Rhagfyr 2012, o'i gymharu â'r gwaith maes Arolwg Cenedlaethol a gynhaliwyd dros y flwyddyn lawn o Ebrill 2013 i fis Mawrth 2014.

## Ansawdd yr ardal leol

Roedd yr Arolwg Cenedlaethol yn cynnwys cyfres o gwestiynau ar ansawdd yr ardal leol. Roedd y rhain wedi'u cynnwys yn yr arolwg er mwyn helpu i ymchwilio i ddimensiynau amgylcheddol lles.


Gofynnwyd i bobl a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â datganiadau cadarnhaol am eu hardal leol. Roedd 70% yn cytuno â'r datganiad 'mae fy ardal leol yn cael ei chynnal a'i chadw'n dda', roedd 62% yn cytuno â'r datganiad 'does dim sbwriel yn fy ardal leol', ac roedd 77% yn cytuno bod 'dim graffiti a fandaliaeth' yn eu hardal leol. Dengys Siart 24 a Siart 25 gyfran y bobl a oedd yn cytuno bod ei hardal leol yn cael ei chynnal a'i chadw'n dda' a bod dim graffiti a fandaliaeth yno, yn ôl awdurdod lleol.

**Siart 24:Cyfran sy'n cytuno bod ei hardal leol wedi ei chynnal a'i chadw'n dda, yn ôl awdurdod lleol**




Roedd 80% o bobl yn Sir Benfro yn teimlo bod eu hardal leol yn ei chadw a'i gynnal yn dda, o gymharu â 56% o bobl ym Mlaenau Gwent. Fodd bynnag, mae gwaith ymchwil blaenorol wedi dangos bod y mwyafrif helaeth o'r amrywiad mewn bodlonrwydd gyda chynnal a chadw'r ardal leol o ganlyniad i wahaniaethau rhwng unigolion, ac nid i ba awdurdod lleol y maent yn byw ynddo[38]

**Siart 25: Cyfran sy'n cytuno fod dim graffiti a fandaliaeth yn eu hardal leol, yn ôl awdurdod lleol**




Roedd 93% o bobl ym Mhowys yn teimlo bod eu hardal leol yn rhydd o graffiti a fandaliaeth, o gymharu â 65% o bobl ym Merthyr Tudful.

[38] Gweler yr adroddiad ar foddhad gyda gwasanaethau awdurdodau lleol sy'n seiliedig ar ganlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol 2012-13.

## Ymdeimlad o gymuned

Mae Strategaeth Cydlyniant Cymunedol Llywodraeth Cymru'n nodi ein blaenoriaethau ar gyfer gwella cydlyniant cymunedol. Defnyddir y term 'cydlyniant cymunedol' i olygu pobl sy'n byw ochr yn ochr â'i gilydd gan ddeall a pharchu ei gilydd, lle caiff pob unigolyn gyfle cyfartal i gymryd rhan a mynediad cyfartal i wasanaethau. Defnyddiwyd yr Arolwg Byw yng Nghymru i roi tystiolaeth sylfaenol ar gyfer y broses o ddatblygu'r strategaeth hon. Cafodd cwestiynau am gydberthynas pobl â'i gilydd yn eu hardal leol eu cynnwys yn yr Arolwg Cenedlaethol fel y gellid monitro a mesur effaith prosiectau i hyrwyddo cydlyniant cymunedol.


Gofynnodd yr Arolwg Cenedlaethol a oedd ymatebwyr yn cytuno:

- bod pobl o wahanol gefndiroedd dod ymlaen yn dda gyda'i gilydd; a
- bod pobl yn trin ei gilydd gyda pharch ac ystyriaeth.

Roedd 78% o bobl yn cytuno[39] bod pobl o wahanol gefndiroedd dod ymlaen yn dda gyda'i gilydd yn eu hardal leol. Roedd 80% yn cytuno fod pob yn eu hardal leol yn trin ei gilydd gyda pharch ac ystyriaeth Dengys y canlyniadau fod pobl hŷn yn fwy tebygol na phobl ifanc o fod â safbwynt cadarnhaol am bobl yn eu hardal leol; roeddent yn fwy tebygol o gytuno â'r ddau ddatganiad, fel y dangosir yn Siart 26 isod.

[39] Caiff 'Cytuno' ei ddiffinio fel y rhai a ddywedodd 'cytuno'n gryf' a 'tueddu i gytuno'

**Siart 26: Cyfran y bobl a oedd yn cytuno â datganiadau am bobl yn eu hardal leol, yn ôl oedran.**




- Roedd 93% o bobl 75 oed neu drosodd yn cytuno bod pobl yn eu hardal leol yn trin ei gilydd gyda pharch ac ystyriaeth, o gymharu â 72% o bobl rhwng 16 a 24 oed.

- Roedd 86% o'r rhai 75 oed neu drosodd o'r farn bod pobl yn eu cymdogaeth yn barod i helpu eu cymdogion, o gymharu â 74% o bobl rhwng 16 a 24 oed.

Roedd Arolwg Bywyd Cymunedol 2012-13 yn cynnwys amrywiaeth o gwestiynau ar gydlyniant cymunedol. Canfu ar gyfer pobl yn Lloegr:

- bod 86% o bobl yn cytuno bod eu hardal leol yn fan lle mae pobl o wahanol gefndiroedd yn dod ymlaen yn dda gyda'i gilydd;
- Teimlai 41% y gellir ymddiried yn y rhan fwyaf o bobl;
- Cytunodd 62% fod pobl yn eu cymdogaeth yn 'cyd-dynnu' i wella'r gymdogaeth; a
- Roedd 80% yn cael sgwrs gyda'u cymdogion o leiaf unwaith y mis

Ni ellir cymharu'r rhan fwyaf o'r cwestiynau ar gydlyniant cymunedol o fewn yr Arolwg Cenedlaethol yn uniongyrchol â'r rhai a gynhwysir yn yr Arolwg Bywyd Cymunedol, oherwydd geiriad gwahanol y cwestiynau a'r opsiynau ateb, ond mae'r canlyniadau'r Arolwg Bywyd Cymunedol yn darparu cyd-destun defnyddiol.

## Teimlo'n ddiogel


Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn ymrwymo Llywodraeth Cymru i wneud cymunedau'n fwy diogel drwy leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol, troseddau (yn cynnwys ofn troseddau), camddefnyddio sylweddau, achosion ac effaith tanau a chydgysylltu effeithiol mewn achosion brys. Amlygodd cyhoeddiad y Swyddfa Gartref ar Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben Mehefin 2013, fod yna fwlch rhwng canfyddiadau o droseddau, a throseddau y rhoddir gwybod amdanynt. Mae data gweinyddol ar gael ar droseddau y rhoddir gwybod amdanynt, ond caiff canfyddiadau o droseddau eu monitro gan ddefnyddio data o arolygon.

Yn yr Arolwg Cenedlaethol, gofynnwyd i bobl pa mor ddiogel neu anniogel yr oeddent yn teimlo mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd wedi iddi dywyllu:

- dywedodd 79% eu bod yn teimlo'n ddiogel[40] yn cerdded ar eu pen eu hun yn eu hardal leol wedi iddi dywyllu
- Roedd 96% yn teimlo'n ddiogel yn eu cartref wedi iddi dywyllu;
- Roedd 79% yn teimlo'n ddiogel ar drafnidiaeth gyhoeddus ar ôl iddi dywyllu (mae hwn wedi cynyddu o 74% yn 2012-13)

Gofynnwyd y cwestiynau hyn hefyd yn Arolwg Cenedlaethol 2012-13, Arolwg Cenedlaethol peilot 2009-10 ac yn Arolwg Byw yng Nghymru 2004-08. Roedd y canlyniadau ar gyfer pob arolwg yn eithaf tebyg. Adlewyrchwyd y gwahaniaeth mewn lefelau diogelwch yn ôl rhyw yn yr Arolwg Byw yng Nghymru hefyd yng nghanfyddiadau Arolwg Cenedlaethol: dywedodd 90% o ddynion eu bod yn teimlo'n ddiogel yn cerdded ar eu pen eu hun yn eu hardal leol wedi iddi dywyllu, o gymharu â 68% o ferched. Dengys Siart 27 isod sut mae canfyddiadau o ddiogelwch yn gwahaniaethu yn ôl amddifadedd ardal[41].

**Siart 27: Teimlo'n ddiogel yn cerdded ar eu pen eu hun yn eu hardal leol wedi iddi dywyllu, yn ôl sgôr amddifadedd**




- Roedd pobl mewn ardaloedd mwy difreintiedig yn llai tebygol o deimlo'n ddiogel yn cerdded yn eu hardal leol wedi iddi dywyllu.
- Roedd 68% o bobl yn y 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru yn teimlo'n ddiogel yn cerdded yn eu hardal leol wedi iddi dywyllu, o gymharu â 85% o bobl sy'n byw yn 20% o ardaloedd lleiaf difreintiedig Cymru.

Mae'r cwestiwn 'pa mor ddiogel ydych chi'n teimlo wrth gerdded ar eich pen eich hun yn eich ardal leol ar ôl iddi dywyllu' yn aml yn cael ei ddefnyddio i fesur pryder y cyhoedd ynghylch troseddu. Mae'r cwestiwn hwn hefyd wedi ei gynnwys yn Arolwg Trosedd a Chyfiawnder yr Alban 2012/13, lle dywedodd 72% o oedolion eu bod yn teimlo'n ddiogel. Canfu'r Arolwg Cenedlaethol bod cyfran sylweddol yn uwch (79%) yn teimlo'n ddiogel wrth gerdded ar ei ben/phen ei hun yn eu hardal leol ar ôl iddi dywyllu. Fodd bynnag, mae'n debygol fod gofyn y cwestiwn mewn arolwg penodol am droseddau, yn arwain at ymatebion llai cadarnhaol na phan yn gofyn mewn arolwg aml-bwrpas fel yr Arolwg Cenedlaethol.

[40] Caiff 'Diogel' ei ddiffinio fel y rhai a ddywedodd 'diogel iawn ac 'eithaf diogel'
[41] Yn seiliedig ar gyfanswm sgôr Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru.

Roedd 69% o ferched yn teimlo'n ddiogel ar drafnidiaeth gyhoeddus wedi iddi dywyllu, o gymharu â 90% o ddynion. Roedd pobl hŷn hefyd yn teimlo'n llai diogel ar drafnidiaeth gyhoeddus wedi iddi dywyllu o gymharu â phobl ifanc. Roedd 85% o bobl 16-24 oed yn teimlo'n ddiogel ar drafnidiaeth gyhoeddus ar ôl iddi dywyllu o gymharu â 66% o bobl dros 75.

## Cyllid personol


Nod Strategaeth Cynhwysiant Ariannol Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod gwasanaethau ariannol (e.e. cyngor ar fudd-daliadau a dyledion, addysg ariannol sylfaenol, cyfrifon banc a benthyciadau) ar gael am bris fforddiadwy i bobl ddifreintiedig a phobl ar incwm isel. Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i ddeall i ba raddau y ceir unrhyw ddiffyg o ran darpariaeth neu yn nifer y bobl sy'n manteisio ar wasanaethau sydd ar gael a pha fath o bobl yr effeithir arnynt, wrth iddi ddatblygu ei dull gweithredu i sicrhau y gall pawb yng Nghymru fanteisio ar y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

Roedd yr Arolwg Cenedlaethol yn cynnwys cwestiwn ar p'un a oedd pobl yn cael unrhyw anawsterau wrth dalu biliau ac ad-dalu benthyciadau. Dywedodd 50% o bobl nad oeddent yn cael unrhyw anawsterau wrth ymdopi â'u biliau ac ymrwymiadau ariannol. Dywedodd 30% eu bod yn cael trafferth o bryd i'w gilydd, dywedodd 12% eu bod yn cael trafferth yn barhaus, a dywedodd 3% eu bod ar ei hôl hi gyda rhai biliau ac ymrwymiadau credyd; dywedodd 1% eu bod yn cael trafferthion ariannol gwirioneddol ac wedi methu talu nifer o filiau, a dywedodd 4% nad oedd ganddynt unrhyw filiau.

Yn 2012-13, roedd cyfran ychydig yn is o bobl (48%) yn gallu cadw i fyny â'u biliau heb anhawster. Mae'r gwelliant rhwng 2012-13 a 2013-14 wedi bod yn y rhai sy'n ei chael hi'n anodd o bryd i'w gilydd (yn gostwng o 33% i 30%). Mae'r ffigurau ar gyfer y rhai yn ei chael yn frwydr gyson (12%), neu syrthio y tu ôl gyda rhai biliau (3%) neu lawer o filiau (1%), heb newid.

Mae Siart 28 yn dangos pobl nad oedd yn cael unrhyw anawsterau wrth ymdopi â'u biliau wedi'u rhannu yn ôl oedran.

**Siart 28: Gallu ymdopi â'u holl filiau ac ymrwymiadau heb anawsterau, yn ôl oedran**




- Roedd pobl hŷn yn fwy tebygol o allu ymdopi â'u biliau a'u hymrwymiadau credyd heb anawsterau o gymharu â phobl ifanc

- Roedd 71% o bobl 75 oed neu drosodd yn gallu ymdopi â'u holl filiau heb anawsterau, o gymharu â 34% o bobl o dan 24 oed.

Cynyddodd y gyfran o bobl rhwng 25 a 44 oed a oedd yn gallu ymdopi â'u biliau o 37% yn 2012-13 i 42% yn 2013-14. Dywedodd 21% o bobl 16 i 24 oed nad oedd ganddynt unrhyw filiau, o gymharu ag 1% neu lai ym mhob un o'r grwpiau oedran eraill.

Yn 2013-14, dywedodd 4% eu bod wedi defnyddio gwasanaethau sefydliadau sy'n rhoi cyngor a chymorth ar broblemau dyledion yn ystod y 12 mis diwethaf. Pobl rhwng 25 a 44 oed oedd y grŵp oedran oedd fwyaf tebygol o ddefnyddio gwasanaethau sefydliad cymorth dyledion, o gymharu â 1% o bobl 75 oed a throsodd.


## Trafnidiaeth

Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol yn nodi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu system drafnidiaeth ddiogel, fforddiadwy a chynaliadwy sy'n cefnogi gallu cystadleuol economaidd Cymru ac yn darparu trafnidiaeth i swyddi a gwasanaethau.

Gofynnodd yr Arolwg Cenedlaethol am farn pobl ar gyflwr y system drafnidiaeth yng Nghymru. Gofynnwyd i ymatebion ystyried gwasanaethau ffyrdd, rheilffordd a bysiau i seiclo a cherdded. Rhoddwyd atebion ar raddfa rhwng dim a deg, lle'r oedd dim yn cyfleu 'eithriadol o wael' a deg yn cyfleu 'eithriadol o dda'. Y sgôr gyfartalog oedd 6.0.

Mae Siart 29 yn dangos y graddau cyfartalog a roddwyd gan bobl ym mhob awdurdod lleol.

**Siart 29: Safbwyntiau ar y system drafnidiaeth, yn ôl awdurdod lleol (a)**




(a) Rhoddwyd atebion ar raddfa rhwng dim (eithriadol o wael) a deg (eithriadol o dda)

Pobl yng Ngheredigion a roddodd y sgôr isaf (5.2), a phobl yn Sir y Fflint oedd fwyaf bodlon (6.5).[42]

[42] Gweler Tabl 29 yn yr Atodiad i weld y canlyniadau yn fwy manwl, gan gynnwys cyfyngau hyder.

## Teithio Llesol


Mae 'teithio llesol' yn golygu cerdded neu feicio i gyrraedd lleoliad arbennig megis gwaith, siopau neu i ymweld â ffrindiau. Bydd Deddf Teithio Llesol 2013 Llywodraeth Cymruyn dod i rym yng nghanol 2014. Bydd y gyfraith hon yn ei gwneud yn ofyniad cyfreithiol i awdurdodau lleol yng Nghymru fapio a chynllunio llwybrau sy'n addas ar gyfer teithio llesol, a gwella eu seilwaith ar gyfer cerdded, a beicio drwy gysylltu ardaloedd allweddol megis gweithleoedd, ysbytai, ysgolion ac ardaloedd siopa â llwybrau teithio llesol. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol hyrwyddo cerdded a beicio fel dulliau o deithio ac annog pobl i ddibynnu llai ar eu ceir wrth wneud teithiau byr.

Er mwyn monitro sut y bydd cyflwyno'r ddeddf hon yn newid ymddygiad pobl, yn 2013-14 gwnaeth yr Arolwg Cenedlaethol gynnwys cyfres o gwestiynau ynglŷn â gweithgarwch teithio llesol pobl ar hyn o bryd. Roedd yn gofyn sut y byddai pobl fel arfer yn teithio i wahanol leoedd, pa fathau o 'deithio llesol' y byddai pobl yn ei wneud, a pham a pha mor aml yr oeddent yn gwneud hyn.

## Dull trafnidiaeth a ddefnyddir fel arfer

Gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi pa fath o drafnidiaeth y byddant yn ei ddefnyddio fel arfer er mwyn mynd i siopau lleol, meddygfa, tafarndai lleol, caffis, bwytai, eu gwaith/ysgol neu goleg. Dangosir yr ymatebion yn Siart 30 isod.

**Siart 30: Dull trafnidiaeth a ddefnyddir fel arfer i gyrraedd amrywiaeth o lefydd(a)**




(a) Cafodd ymatebwyr a nododd 'trafnidiaeth gyhoeddus','ddim yn mynd' neu 'arall' eu dileu o'r siart.

Roedd pobl fwyaf tebygol o ddefnyddio eu car i deithio i'r gwaith (77%), i'r feddygfa (61%), siopau lleol (59%) a thafarndai a chaffis lleol (48%), nag unrhyw ddull arall o drafnidiaeth. Dim ond i gyrraedd yr ysgol/coleg y dywedodd canran uwch o bobl eu bod fel arfer (33% yn cerdded, 29% yn defnyddio'r car).

O blith yr holl leoliadau a enwyd, roedd pobl fwyaf tebygol o gerdded i'w siopau lleol (49%) neu dafarndai, caffis a bwytai lleol (41%) ac yn llai tebygol o gerdded i'w gwaith (17%).

Y lleoliad a oedd fwyaf poblogaidd o ran beicio oedd yr ysgol neu'r coleg, gyda 5% yn dweud eu bod fel arfer yn beicio yno. Dim ond 3% a ddywedodd eu bod fel arfer yn beicio i'r gwaith, gyda llai na 3% yn dweud eu bod fel arfer yn beicio i leoliadau eraill.


Ar gyfer pobl lleoliad, roedd merched yn fwy tebygol o gael lifft yn y car gan eraill a dynion yn llawer mwy tebygol o feicio. Roedd gwahaniaeth ymhlith awdurdodau lleol hefyd. Nodwyd mai ymatebwyr yng Nghaerdydd oedd leiaf tebygol o ddefnyddio car i gyrraedd pob lleoliad, a nhw oedd fwyaf tebygol o feicio, defnyddio bysys, tacsis a cherdded.

## Teithio llesol yn ystod y 7 diwrnod diwethaf

Gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi pa fath o deithio llesol yr oeddent wedi'i wneud yn ystod y saith diwrnod diwethaf. Roedd 6% wedi defnyddio beic ac roedd 65% wedi cerdded am fwy na 5 munud, nid oedd 34% wedi gwneud yr un o'r pethau hyn. Roedd dynion (9%) yn fwy tebygol na merched (3%) o fod wedi defnyddio beic yn ystod y saith diwrnod diwethaf, ac roeddent hefyd yn fwy tebygol o fod wedi cerdded am fwy na 5 munud, 68% o'i gymharu â 63% o ferched. Roedd pobl iau yn fwy tebygol o fod wedi cerdded a beicio na phobl hŷn, gydag 11% o bobl rhwng 16 a 24 wedi seiclo yn ystod y 7 diwrnod diwethaf, o'i gymharu â llai na 2% o bobl dros 65. Dywedodd 83% o bobl rhwng 16 a 24 oed eu bod wedi cerdded am fwy na 5 munud, o'i gymharu â 49% o bobl dros 65[43].

Wedyn, gofynnwyd i ymatebwyr a oedd wedi cerdded am fwy na 5 munud, neu a oedd wedi defnyddio beic, beth oedd diben eu taith 'teithio llesol' ddiweddaraf. Dangosir y dibenion mwyaf cyffredin dros feicio a cherdded yn siart 31 isod.

**Siart 31: Diben eu taith 'teithio llesol' ddiweddaraf (a)**




(a) Cafodd y sawl a ddywedodd eu bod yn beicio neu'n cerdded oherwydd rhesymau meddygol neu i gludo eu plant i weithgareddau eu dileu o'r siart oherwydd niferoedd isel

Mae Siart 31 yn dangos fod pobl yn fwy tebygol o ddefnyddio 'teithio llesol' i fynd i siopau lleol ar berwyl bach, gyda 40% o'r bobl oedd yn cerdded a 24% o'r rhai oedd yn beicio yn gwneud hynny at y diben hwn. Roedd 23% o'r rhai oedd wedi beicio wedi gwneud hynny i gyrraedd eu gwaith. Dywedodd 5% o bobl a oedd wedi cerdded am fwy na 5 munud yn y 7 diwrnod diwethaf mai diben eu taith gerdded ddiweddaraf oedd mynd â'u plentyn i'r ysgol, fodd bynnag, cafodd y cwestiwn hwn ei ofyn i bawb, boed yn rhieni ai peidio.


## Dull trafnidiaeth a ddefnyddiwyd i gyrraedd yr ysgol

Nod y Cynllun teithio llesol Llywodraeth Cymru yw cynyddu cyfran y plant sy'n cerdded neu'n beicio i'r ysgol. Roedd yr Arolwg felly yn cynnwys cwestiynau yn arbennig ar gyfer rhieni i blant o oedran ysgol gynradd neu ysgol uwchradd hefyd. Gofynnwyd i rieni sut roedd eu plentyn fel arfer yn teithio i'r ysgol a pha mor bell oedd y daith honno. Mae siart 32 isod yn dangos y dull trafnidiaeth a ddefnyddir fel arfer gan blant i gyrraedd yr ysgol.

Mae siart 32 yn dangos bod 37% o blant yn cerdded i'w hysgolion cynradd yng nghwmni oedolyn a 16% yn cerdded heb gwmni oedolyn, o gymharu â'r 2% sy'n cerdded i'w hysgolion uwchradd yng nghwmni oedolyn a 31% sy’n cerdded heb gwmni oedolyn. Roedd plant mewn ysgolion uwchradd yn tueddu i deithio ymhellach na phlant mewn ysgolion cynradd, ac roedd plant mewn ysgolion uwchradd yn llawer mwy tebygol o fynd i'r ysgol ar fws ysgol na phlant mewn ysgolion cynradd.


[43] Gweler tabl 30 yn yr atodiad, ar gyfer y cyfyngau hyder.

**Siart 32: Dull trafnidiaeth a ddefnyddir gan blant i gyrraedd yr ysgol gynradd ac uwchradd**




Yn ôl y disgwyl, roedd plant sy'n byw llai na milltir i ffwrdd o'u hysgol yn fwy tebygol o gerdded ac roedd y rhai hynny oedd yn byw mwy na 3 milltir i ffwrdd yn fwy tebygol o ddefnyddio trafnidiaeth fodur. Mae siart 33 yn dangos sut mae'r dull o gludiant yn wahanol ar gyfer pobl sy'n byw llai na milltir i ffwrdd o'r ysol a'r rhai sy'n byw dros filltir i ffwrdd.

**Siart 33: Dull o deithio a ddefnyddir gan blant i gyrraedd yr ysgol gynradd ac uwchradd (a) (diwygiedig)**[44]





O'r rhai sy'n byw llai na milltir i ffwrdd o'u hysgol gynradd aeth 38% mewn car neu drwy gael lifft, roedd 77% yn cerdded (naill ai gyda neu heb oedolyn) a 3% yn beicio. O'r rhai sy'n byw llai na milltir i ffwrdd o'u hysgol uwchradd, roedd 18% yn mynd mewn car neu drwy gael lifft, 82% yn cerdded (naill ai gyda neu heb oedolyn) ac 1% yn beicio.

[44] Diwygiad: Mae'r siart yma wedi cael ei ddiwygio ar 10 Gorffenaf 2014 am fod camgymeriad wedi bod yn y labeli yn y siart gwreiddiol.

## Pa mor aml mae pobl yn cerdded neu feicio fel dull o deithio

Gofynnwyd i ymatebwyr hefyd pa mor aml roeddent yn beicio neu'n cerdded fel dull o deithio dros y 3 mis diwethaf. Gofynnwyd iddynt ystyried teithiau lle roeddent wedi teithio'r holl ffordd i'w lleoliad yn ogystal â theithiau lle roeddent wedi beicio neu gerdded am ran o'r daith (er enghraifft cerdded/beicio i orsaf drenau) Dangosodd siart 34 pa mor aml oedd dynion a merched wedi cerdded neu feicio fel fel dull o deithio dros y 3 mis diwethaf.

**Siart 34: Pa mor aml mae pobl yn beicio neu gerdded fel dull o deithio, yn ôl rhyw**




Mae siart 34 yn dangos fod dynion yn fwy tebygol na merched o fod wedi beicio a cherddded dros y 3 mis diwethaf, a'u bod yn fwy tebygol o fod wedi gwneud hyn yn fwy aml. Roedd 9% o ddynion wedi beicio (1% bob dydd, 4% sawl gwaith yr wythnos a 4% unwaith neu ddwywaith yr wythnos) o'i gymharu â 3% o ferched (1% bob dydd, 1% sawl gwaith yr wythnos a 2% unwaith neu ddwywaith yr wythnos). Roedd 69% o ddynion wedi cerdded am fwy na 5 munud (24% bob dydd, 25% sawl gwaith yr wythnos a 20% unwaith neu ddwywaith yr wythnos) o'i gymharu â 64% o ferched (20% bob dydd, 24% sawl gwaith yr wythnos ac 20% unwaith neu ddwywaith yr wythnos).

Roedd pobl iau yn fwy tebygol o fod wedi cerddded a beicio dros y 3 mis diwethaf, a hefyd yn fwy tebygol o fod wedi gwneud hyn yn fwy aml.

Roedd pobl sy'n byw mewn ardaloedd trefol hefyd yn fwy tebygol na phobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig o fod wedi cerdded am fwy na 5 munud yn ystod y 3 mis diwethaf (70%, o'i gymharu â 56%), ac roeddent hefyd yn fwy tebyg o fod wedi gwneud hyn yn fwy aml, gyda 24% o bobl mewn ardaloedd trefol yn cerdded bob dydd o'i gymharu â 17% o bobl mewn ardaloedd gwledig.


## Larymau mwg

Mae Llywodraeth Cymru'n rhoi grantiau i'r Gwasanaethau Tân ac Achub i weithio'n agos gyda thrigolion lleol a grwpiau cymunedol, gan roi cyngor ar ddiogelwch tân a rhoi larymau mwg i'r rheini sy'n wynebu'r risg fwyaf.[45] Gall gwybodaeth am ba fathau o aelwydydd sydd leiaf tebygol o gael larymau sy'n gweithio helpu i neilltuo adnoddau i sicrhau eu bod yn cael yr effaith fwyaf. O ganlyniad, mae'r Arolwg Cenedlaethol yn cynnwys cwestiynau ar faint o larymau mwg sydd gan aelwydydd a ph'un a ydynt yn gweithio. Caiff canlyniadau'r arolwg eu rhannu gyda'r Gwasanaeth Tân ac Achub er mwyn helpu i dargedu ei waith ataliol.

Canfu'r Arolwg Cenedlaethol nad oedd gan 6% o aelwydydd yng Nghymru larwm mwg yn eu cartref. O'r aelwydydd oedd wedi gosod o leiaf un larwm mwg, nid oedd gan 2% ohonynt un oedd yn gweithio ar y pryd. Mae hyn yn golygu nad oedd gan 8% o'r holl aelwydydd larwm mwg oedd yn gweithio. Dim ond 6% o aelwydydd oedd yn cynnwys plant o dan 16 oed oedd heb larwm mwg oedd yn gweithio, o gymharu â 9% o aelwydydd heb blant.

Dengys Siart 35 sut mae cyfran yr aelwydydd sydd â larwm mwg sy'n gweithio yn amrywio yn ôl deiliadaeth (rhentu'n breifat, perchennog-ddeiliad, neu dai cymdeithasol[46].

**Siart 35: Cyfran yr aelwydydd sydd ag o leiaf un larwm mwg sy'n gweithio yn ôl deiliadaeth (diwygiedig)[47]**




- Roedd gan 98% o aelwydydd sy'n byw mewn tai cymdeithasol o leiaf un larwm mwg oedd yn gweithio o gymharu a 91% o aelwydydd sy'n berchennog-ddeiliaid â 89% o aelwydydd sy'n rhentu'n breifat.

Roedd gan 92% o'r holl aelwydydd yng Nghymru o leiaf un larwm mwg oedd yn gweithio. Nid oedd yn wahanol iawn i ganlyniadau Arolwg Byw yng Nghymru 2008. Yn 2013-14, roedd gan 94% o'r aelwydydd yn rhanbarth tân Gogledd Cymru o leiaf un larwm mwg oedd yn gweithio, o gymharu â 92% ar gyfer Canolbarth a Gorllewin Cymru a 91% ar gyfer De Cymru (gweler Tabl 33 yn yr Atodiad).

Ceir gwybodaeth ychwanegol am gyfraddau achosion o dân a gofnodwyd ac ystadegau gweithrediadau ar StatsCymru. Nodir gwybodaeth am gyfraddau larymau mwg a ysgogwyd mewn tanau yng Nghymru yn nhablau 15, 16 a 17 o Ystadegau Tân 2012-2013.

---

[45] Gweler Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub Cymru 2012.
[46] Tai cymdeithasol yw tai sy'n eiddo i awdurdodau lleol neu gymdeithasau tai ac yn cael eu rheoli ganddynt.
[47] Diwygiad: cafodd y siart yma ei ddiwygio ar y 10fed o Orffennaf, am fod canlyniadau'r siart gwreiddiol wedi cael eu pwysoli'n anghywir.


## Defnydd a mynediad i'r rhyngrwyd

Nod Llywodraeth Cymru yw lleihau'r nifer cyffredinol o bobl sydd ddim yn defnyddio'r rhyngrwyd a thargedu cymorth at rannau penodol o'r boblogaeth i sicrhau bod dinasyddion yn manteisio'n llawn ar y manteision economaidd a chymdeithasol a gynigir gan y rhyngrwyd. Mae nodi'r nifer, y cyfran a'r mathau o bobl sydd ddim yn defnyddio'r rhyngrwyd yn helpu Llywodraeth Cymru i fonitro eu cynnydd yn erbyn yr amcanion hyn. Mae gwybodaeth am fynediad i'r rhyngrwyd a'i ddefnydd wedi bod yn ganolog i'r broses o lywio polisïau a mentrau Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â chynhwysiant digidol.[48] Mae targedau Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar bobl 18 + oed, ac felly yn yr adran hon lle mae'r term "pobl" yn cael ei ddefnyddio mae'n cyfeirio at bobl dros 18 oed (heblaw ei fod yn dweud fel arall).

Yn yr Arolwg Cenedlaethol, gofynnwyd i ymatebwyr lle maent yn cael mynediad at y rhyngrwyd, pa ddyfeisiau oeddent yn eu defnyddio a pha weithgareddau oeddent yn defnyddio'r rhyngrwyd ar eu cyfer. Canfu'r arolwg fod gan 75% o gartrefi fynediad i'r rhyngrwyd. Mae hyn wedi cynyddu ers 2012-13, lle'r oedd gan 73% o gartrefi fynediad i'r rhyngrwyd. Mae hyn yn golygu bod gan tua 82% o bobl 18 oed neu drosodd fynediad i'r rhyngrwyd gartref. Roedd lefel y mynediad i'r rhyngrwyd ymhlith aelwydydd yn amrywio yn ôl nodweddion yr aelwyd. Dengys Siart 36 fod cartrefi oedd yn rhentu'n breifat ac aelwydydd sy'n berchennog-ddeiliaid yn fwy tebygol o gael mynediad i'r rhyngrwyd na'r aelwydydd hynny mewn tai cymdeithasol[49].

[48] Gweler tud 16 o Gynllun Dadansoddi Cynhwysiant Digidol Llywodraeth Cymru
[49] Tai cymdeithasol yw tai sy'n eiddo i awdurdodau lleol neu gymdeithasau tai ac yn cael eu rheoli ganddynt

**Siart 36: Aelwydydd sydd â mynediad i'r rhyngrwyd, yn ôl deiliadaeth**





- Roedd gan 81% o aelwydydd sy'n rhentu'n breifat a 79% o aelwydydd sy'n berchennog-ddeiliaid fynediad i'r rhyngrwyd.
- Mae hyn yn cymharu ag ychydig dros hanner (56%) y rheini mewn tai cymdeithasol.

Roedd y canrannau o gartrefi a oedd yn rhentu'n breifat a'r cartrefi perchennog-ddeiliaid, a oedd a mynediad i'r rhyngrwyd yn y cartref wedi cynyddu ers 2012-13 (o 76% yn y ddau fath o aelwydydd i 81% a 79% yn y drefn honno). Mewn cyferbyniad, nid oedd unrhyw gynnydd arwyddocaol i bobl mewn tai cymdeithasol.


Roedd gan 67% o aelwydydd a oedd yn byw yn y 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru fynediad i'r rhyngrwyd, o gymharu â 85% o aelwydydd a oedd yn byw yn y 20% o ardaloedd lleiaf difreintiedig. (Gweler Atodiad, Tabl 34). O'i gymharu â 2012-13, nid oedd y gyfran o aelwydydd yn y 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig a oedd wedi cael mynediad i'r rhyngrwyd wedi newid (gwnaeth aros yn 67%). Fodd bynnag, ar gyfer cartrefi yn yr 20% o ardaloedd lleiaf difreintiedig mae wedi cynyddu o 81% i 85%.
Ceir fwy o ymchwil manwl i'r ffactorau sy'n effeithio ar fynediad i'r rhyngrwyd a defnydd ar gael yma.
Roedd yr Arolwg Byw yng Nghymru rhwng 2004 a 2008, yr Arolwg Cenedlaethol peilot Cymru 2009-10 a'r Arolwg Cenedlaethol yn 2012-13 yn cynnwys yr un cwestiwn am fynediad aelwydydd i'r rhyngrwyd. Gellir defnyddio'r canlyniadau o'r arolygon hyn i olrhain y duedd gynyddol o gael mynediad i'r rhyngrwyd yng Nghymru ers 2004. Dengys Siart 37 fod mynediad i'r rhyngrwyd yn y cartref wedi cynyddu o 43% i 75% yn ystod y cyfnod o naw mlynedd.

**Siart 37: Mynediad i'r rhyngrwyd ymysg aelwydydd, 2004 i 2014**



Gofynnodd yr Arolwg Cenedlaethol a oedd pobl yn defnyddio'r rhyngrwyd yn bersonol gartref, yn y gwaith neu rywle arall. Nododd 79% o bobl 18 oed neu drosodd eu bod yn defnyddio'r rhyngrwyd. Roedd hyn yn amrywio yn ôl oedran fel y dangosir yn Siart 38 isod. (Gweler Tabl 36 yn yr Atodiad)

**Siart 38: Defnydd o'r rhyngrwyd yn ôl oedran**




- Roedd pobl iau yn fwy tebygol o ddefnyddio'r rhyngrwyd na phobl hŷn.
- Roedd 97% o bobl 18 i 24 oed yn defnyddio'r rhyngrwyd, o gymharu â dim ond 25% o bobl 75 oed neu drosodd.


Amcangyfrifodd yr adroddiad Farchnad Gyfathrebu gan Ofcom yn 2013 bod gan 75% o gartrefi yng Nghymru fynediad i'r rhyngrwyd erbyn cwarter cyntaf 2013, o'i gymharu â 80% ar gyfer y DU cyfan. Ar gyfer Ionawr-Mawrth 2014 amcangyfrifoddy Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) fod 85% o oedolion Cymru wedi defnyddio'r Rhyngrwyd, o'i gymharu â 87% o oedolion yn y DU yn ei chyfanrwydd. Mae'r ddau ganfyddiad hyn yn gyson â'r ffigurau'r Arolwg Cenedlaethol[50]. Mae adroddiad Swyddfa

Gofynnodd yr Arolwg Cenedlaethol hefyd am y dyfeisiau y mae pobl yn eu defnyddio i gael mynediad i'r rhyngrwyd. Y tair dyfais a ddefnyddiwyd fwyaf cyffredin i gael mynediad i'r rhyngrwyd oedd gliniadur gartref neu yn y gwaith (71%), ffôn symudol neu ffôn deallus (53%) a chyfrifiadur pen desg (48%). Fodd bynnag, hyd yn oed dros gyfnod o flwyddyn, bu newid sylweddol yn y dyfeisiau a ddefnyddir i gael mynediad i'r rhyngrwyd. Defnyddiodd cyfran lai gliniadur a chyfrifiadur n ben-desg (lleihau o 75% i 71%, ac o 52% i 48% yn y drefn honno) a defnyddiodd fwy o bobl eu ffonau symudol (cynnydd o 41% i 53%). Mae'r gyfran sy'n defnyddio dyfais llaw fel tabled neu iPad cynyddu'n sylweddol iawn, o 17% i 33%.

Canfu'r Arolwg Cenedlaethol 2013-14 bod y math o ddyfais a ddefnyddir i gael mynediad i'r rhyngrwyd yn amrywio yn ôl oedran yr ymatebydd, fel y dangosir yn Siart 39.

[50] Mae rhaid bod yn ofalus, wrth gymharu canlyniadau'r arolygon hyn gan eu bod wedi cael eu cynnal drwy ddefnyddio gwahanol fethodolegau.


**Siart 39: Dyfeisiau a ddefnyddir i gael mynediad i'r rhyngrwyd, yn ôl oedran**




Gliniadur gartref neu yn y gwaith oedd y ddyfais a fwyaf cyffredin ar gyfer rhan fwyaf o'r oedrannau. Fodd bynnag ar gyfer y bobl 18 i 24 oed ffôn symudol neu ffôn deallus oedd y ddyfais a ddefnyddiwyd fwyaf. Roedd cyfran y bobl a oedd yn defnyddio ffôn symudol neu ffôn deallus yn dirywio yn ôl oedran, o 78% o ddefnyddwyr rhyngrwyd rhwng 18 a 24 oed i ddim ond 13% o bobl 65 oed a throsodd. I bobl 45 neu drosodd, yr ail ddyfais a ddefnyddiwyd fwyaf cyffredin oedd cyfrifiadur pen desg.

Nododd 18% o bobl nad oeddent erioed wedi defnyddio'r rhyngrwyd. Gofynnwyd i'r bobl hyn beth oedd y rheswm dros hyn, a nodir yr ymatebion yn Siart 40.

**Siart 40: Rhesymau dros beidio â defnyddio'r rhyngrwyd (a)**




(a) Nid yw'r canrannau hyn yn adio i 100% oherwydd y gallai ymatebwyr roi mwy nag un a

- Dywedodd y mwyafrif o bobl nad oeddent yn defnyddio'r rhyngrwyd mai oherwydd dewis personol, yn hytrach na rhesymau ariannol roedd hyn: nid oedd 61% eisiau gwneud hynny, ac nid oedd 40% angen gwneud hynny.
- Dim ond 5% o bobl a soniodd am gost cyfarpar a 5% am gost mynediad.
- Dywedodd 28% o bobl nad oedd ganddynt y sgiliau cywir.

# Gwybodaeth allweddol o ansawdd

## Cefndir

Cynhelir yr Arolwg Cenedlaethol gan TNS-BMRB a Beaufort Research ar ran Llywodraeth Cymru. Mae'r canlyniadau a nodir yma yn seiliedig ar y sampl o gyfeiriadau a roddwyd i gyfwelwyr rhwng mis Ebrill 2013 a mis Mawrth 2014.

Dewiswyd ychydig dros 24,000 o gyfeiriadau ar hap o Ffeil Cyfeiriadau Cod Post Defnyddwyr Bach y Post Brenhinol. Ymwelodd cyfwelwyr â phob cyfeiriad, dewiswyd un oedolyn (16+ oed) ar hap yn yr aelwyd a chynhaliwyd cyfweliad wyneb yn wyneb 25 munud o hyd gydag ef. Cwblhawyd cyfanswm o 14,771o gyfweliadau. Mae hyn yn cyfateb i gyfradd ymateb o 67%.[51]

## Pynciau a gwmpaswyd

Mae'r arolwg yn cwmpasu amrywiaeth o bynciau, gan ganolbwyntio ar les a barn pobl ar wasanaethau cyhoeddus. Y pynciau yw:

- bodlonrwydd cyffredinol ar y systemau trafnidiaeth, iechyd ac addysg a Llywodraeth Cymru;
- hygyrchedd gwasanaethau meddygon teulu ac ysbytai a bodlonrwydd arnynt;
- ysgolion ac ymgysylltiad rhieni ;
- gwasanaethau awdurdodau lleol;
- lles, yn cynnwys ansawdd yr ardal leol, teimlo'n ddiogel a sefyllfa ariannol;
- defnydd a mynediad i'r rhyngrwyd;
- larymau mwg
- teithio llesol.

Mae'r holiadur llawn ar gael ar dudalennau gwe yr Arolwg Cenedlaethol.

## Dehongli'r canlyniadau

Mae'r canrannau a nodir yn y datganiad hwn ond yn seiliedig ar yr ymatebwyr hynny a roddodd ateb i'r cwestiwn perthnasol. Mae atebion ar goll am sawl rheswm, yn cynnwys pobl yn gwrthod neu fethu ateb cwestiwn penodol ac achosion pan nad oedd y cwestiwn yn berthnasol i'r ymatebydd.

Lle nodwyd cysylltiad rhwng dau newidyn, nid yw hyn o anghenraid yn awgrymu bod un yn achosi'r llall. Bydd angen mwy o ddadansoddiadau manylach i nodi unrhyw achosion.

Ceir cyfeiriadau at ffynonellau gwybodaeth eraill drwy'r datganiad hwn. Nodwyd y ffynonellau hyn gan dîm yr Arolwg Cenedlaethol, drwy drafodaethau â chydweithwyr polisi a dadansoddi, a thrwy astudiaeth a gynhaliwyd ar ddechrau 2012. Ceir systemau i sicrhau mai'r ffigurau a nodir yw'r ffigurau diweddaraf oedd ar gael adeg ei gyhoeddi.

Caiff canlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol eu pwysoli i unioni'r tebygolrwydd o ddethol mewn modd anghyfartal a diffyg ateb gwahaniaethol (h.y. i sicrhau bod dosbarthiad oedran a rhyw y set ddata terfynol yn cyfateb i boblogaeth Cymru).

---

[51] Ceir fwy o fanylion am sut y mae'r maint y sampl yn cael ei gyfrifo Adroddiad Technegol. Er enghraifft, roedd y gyfradd ymateb terfynol yn cynnwys cyfeiriadau a oedd yn wag. Bydd y cyfraddau ymateb terfynol yn cael ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2014 ar ôl i'r sampl a gyhoeddwyd yn 2013-14 cael ei weithio'n llawn.

### Ansawdd y data

Mae Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig wedi dynodi'r ystadegau yma fel Ystadegau Gwladol, yn unol â Deddf y Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007, ac yn arwyddo cydymffurfiad â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Gwladol.

Gellir dehongli'r dynodiad yn sgil yr ystadegau, eu bod yn:

- cwrdd â gofynion defnyddwyr;
- wedi eu disgrifio'n dda a'u bod yn hygyrch;
- wedi eu cynhyrchu i ddulliau cadarn, a
- wedi eu rheoli'n ddiduedd ac yn wrthrychol er lles y cyhoedd.

Unwaith bod ystadegau wedi eu dynodi fel Ystadegau Gwladol, y mae'n ofyniad statudol i barhau i ddilyn y Cod Ymarfer.

### Adroddiad Ansawdd

Mae Adroddiad Ansawdd cryno ar gael, sy'n cynnwys gwybodaeth fanylach ar ansawdd yr arolwg yn ogystal â chrynodeb o'r dulliau a ddefnyddir i lunio'r canlyniadau.

### Amrywioldeb samplu

Mae amcangyfrifon o'r Arolwg Cenedlaethol yn agored i rywfaint o ansicrwydd. Mae rhan o'r ansicrwydd yn deillio o'r ffaith y bydd unrhyw sampl o'r boblogaeth a ddewisir ar hap yn rhoi canlyniadau ychydig yn wahanol i'r canlyniadau a geir pe bai'r boblogaeth gyfan yn cael ei holi. Gelwir hyn yn gyfeiliornad samplu.[52] Gellir defnyddio cyfyngau hyder i roi syniad o faint y cyfeiliornad samplu.

Cyflwynir detholiad o'r canlyniadau a drafodir yn y bwletin hwn yn yr Atodiad ynghyd â'u cyfyngau hyder o 95%. Gellir cyfrifo cyfwng hyder o amgylch amcangyfrif arolwg ac mae'n rhoi amrediad sy'n debygol o gynnwys y gwerth gwirioneddol. Mewn 95% o samplau arolwg, bydd y cyfwng hyder o 95% yn cynnwys y ffigur 'gwirioneddol' ar gyfer y boblogaeth gyfan (hynny yw, y ffigur y byddem yn ei gael pe byddai'r arolwg yn cwmpasu'r boblogaeth gyfan). Yn gyffredinol, po leiaf yw maint y sampl y mwyaf yw'r cyfwng hyder.

Gellir defnyddio cyfyngau hyder hefyd er mwyn helpu i ddweud a oes gwahaniaeth gwirioneddol rhwng dau grŵp. Fel canllaw bras i ddehongli, wrth gymharu dau grŵp, os yw'r cyfyngau hyder o amgylch yr amcangyfrifon yn gorgyffwrdd, gellir tybio nad yw'r amcangyfrifon yn wahanol iawn yn ystadegol - nid yw'r dull hwn mor drylwyr â chynnal prawf ystadegol ffurfiol, ond mae'n syml, fe'i defnyddir yn eang ac mae'n gymharol gadarn.

Cyfrifwyd y cyfyngau hyder o 95% a ddangosir yn yr Atodiad gan ddefnyddio'r pecyn ystadegau Stata. Addaswyd y cyfyngau hyn i ystyried dyluniad yr arolwg ac maent yn fwy nag y byddent pe bai'r arolwg yn seiliedig ar sampl syml a ddewiswyd ar hap. Mae cyfyngau hyder ar gyfer amrywiaeth o amcangyfrifon allweddol o'r arolwg ar gael ym Mhennod 7 yr Adroddiad technegol.

[52] Trafodir cyfeiliornadau samplu yn fanylach yn yr Adroddiad Ansawdd ar gyfer yr Arolwg Cenedlaethol.

Er mwyn sicrhau bod yr amcangyfrifon o'r Arolwg Cenedlaethol a nodir yn y bwletin hwn yn gadarn, rydym hefyd wedi cyfrifo'r cyfernod amrywiad (CV) ar gyfer pob amcangyfrif. Cyfrifir y CV fel y cyfeiliornad safonol wedi'i luosi â 100 a'i rannu â'r cymedr. Nid ystyrir bod amcangyfrifon gyda CV o 20 neu fwy yn ddibynadwy at ddibenion ymarferol.

Rhoddwyd codau lliw canlynol i'r canlyniadau a gyflwynir yn yr Atodiad yn ôl y CV.

| | | |
|---|---|---|
| | Mae'r amcangyfrif yn gywir | 0 ≤ CV < 5 |
| | Mae'r amcangyfrif yn eithaf cywir | 5 ≤ CV < 10 |
| | Ystyrir bod yr amcangyfrif yn dderbyniol | 10 ≤ CV < 20 |
| | Nid yw'r amcangyfrif yn ddibynadwy | CV ≥ 20 |
| - | Amcangyf yn cael ei hatal am fod llai na 30 o ymatebion | |

Fel gydag unrhyw arolwg, mae'r Arolwg Cenedlaethol hefyd yn agored i amrywiaeth o ffynonellau cyfeiliornadau eraill: er enghraifft, oherwydd diffyg ateb; oherwydd efallai na fydd ymatebwyr yn dehongli'r cwestiynau fel y bwriedir iddynt wneud hynny neu'n ateb yn anghywir; ac oherwydd y gall cyfeiliornadau ymddangos wrth i ddata'r arolwg gael ei brosesu. Gelwir y mathau hyn o gyfeiliornad yn gyfeiliornad nad yw'n gyfeiliornad samplu, ac fe'u trafodir yn yr Adroddiad Ansawdd ar gyfer yr arolwg.

### Gwahaniaethau mawr

Lle mae testun y datganiad hwn yn nodi gwahaniaeth rhwng canlyniadau dau Arolwg Cenedlaethol, rydym wedi sicrhau nad yw'r cyfyngau hyder ar gyfer y ddau ganlyniad yn gorgyffwrdd. Mae hyn yn awgrymu bod gwahaniaeth mawr yn ystadegol (ond fel y nodir uchod, nid yw mor fanwl â chynnal prawf ystadegol ffurfiol), h.y. bod llai na 5% (1 mewn 20) o siawns o gael y canlyniadau hyn os nad oes gwahaniaeth rhwng yr un dau grŵp yn y boblogaeth ehangach.

Mae'n llai tebygol y bydd cadarnhau a yw dau gyfwng hyder yn gorgyffwrdd yn arwain at gasgliadau bod gwahaniaethau gwirioneddol rhwng grwpiau o gymharu â phrawf ystadegol ffurfiol. Hynny yw, mae'n fwy tebygol o arwain at "ganlyniadau negyddol ffug": casgliadau anghywir nad oes gwahaniaeth gwirioneddol pan mae gwahaniaeth mewn gwirionedd. Mae hefyd yn llai tebygol o arwain at "ganlyniadau cadarnhaol ffug": casgliadau anghywir **bod** gwahaniaeth pan nad oes gwahaniaeth mewn gwirionedd. Mae cynnal llawer o gymariaethau yn cynyddu'r siawns y ceir canlyniadau ffug. Felly, pan wnaeth gymariaethau, mae natur Geidwadol y prawf yn fantais gan ei fod yn lleihau'r siawns hwn (ond nid yn ei ddileu).

Pan gaiff canlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol eu cymharu â chanlyniadau o ffynonellau eraill, nid ydym wedi sicrhau nad yw'r cyfyngau hyder yn gorgyffwrdd.

### Adroddiad Technegol

Nodir gwybodaeth fanylach am fethodoleg yr arolwg yn yr Adroddiad technegol ar gyfer yr arolwg.

### Polisi rhyddhau

Ceir gwybodaeth am y broses o ryddhau canlyniadau newydd ar dudalennau gwe ystadegau Llywodraeth Cymru.

### Diwygiadau

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys diwygiadau a wnaed ar 30 Mai, 2014 ac ar yr 10fed o Orffennaf yn dilyn y dyddiad cyhoeddi gwreiddiol (29 Mai, 2014). Mae'r diwygiadau wedi cael eu marcio gan y llythyren 'r' neu'r gair 'diwygiedig', ac mae rhai newidiadauwedi cael euhesbonio mewn troednodyn.

Am ragor o wybodaeth am ein polisi diwygiadau, ewch yma

### Argaeledd setiau data

Gellir gweld y data sy'n sail i'r siartiau a'r tablau yn y datganiad hwn mewn cyfres o daenlenni pwnc benodol ar StatsCymru.

Caiff fersiwn anhysbys o'r set ddata flynyddol (y mae rhywfaint o wybodaeth wedi'i dileu ohoni i sicrhau cyfrinachedd), ynghyd â dogfennau ategol, ei chadw yn Archif Ddata'r DU ar ôl cyhoeddi'r canlyniadau hyn. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â ni (gweler isod).

Nawr fod gennym dwy flynedd llawn o ddata (2012-13 a 2013-14), bydd yn bosibl cael dadansoddiadau manylach ar lefel awdurdod lleol / Bwrdd Iechyd drwy gyfuno'r canlyniadau o'r ddwy flwyddyn gwaith maes flaenorol i ddyblu maint y sampl i 1,200 ym mhob awdurdod lleol a thua 22,000 yn genedlaethol.

### Defnydd pellach o'r canlyniadau

Bydd y canlyniadau yn cael eu defnyddio'n helaeth gan dimau polisi Llywodraeth Cymru, ond maent hefyd yn berthnasol i nifer o sefydliadau ac unigolion allanol eraill:

- Mae Byrddau Iechyd wedi dangos diddordeb yng nghanlyniadau'r arolwg a sut y gellid eu defnyddio i fonitro bodlonrwydd cleifion. Byddai'r canlyniadau hefyd o ddefnydd i Fyrddau Iechyd fel cymharir ar gyfer eu harolygon eu hunain, a dylai fod o ddiddordeb i sefydliadau fel Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru a Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS).
- Bydd y canlyniadau o ddiddordeb i ystod eang o sefydliadau allanol megis awdurdodau lleol ar gyfer cynllunio ac at ddiben adrodd.
- Bydd y canlyniadau hefyd fod o ddiddordeb i sefydliadau gwirfoddol, i 'gyfathrebwyr' rhwydwaith CommsCymru y Gwasanaethau Cyhoeddus, ac i academyddion

**Cyswllt**
Lisa Walters
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Rhif ffôn: 029 2082 6685
E-bost: arolygon@cymru.gsi.gov.uk
Gwefan: http://cymru.gov.uk/arolwgcenedlaethol

## Termau a diffiniadau

### Opsiynau ateb

Rydym wedi cyfuno opsiynau ateb ar gyfer cwestiynau yn yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

| Opsiynau ateb: | Cofnodwyd fel: |
|---|---|
| Bodlon iawn ac eithaf bodlon | Bodlon |
| Anfodlon iawn ac eithaf anfodlon | Anfodlon |
| Hawdd iawn a gweddol hawdd | Hawdd |
| Anodd iawn a gweddol anodd | Anodd |
| Cytuno'n gryf a thueddu i gytuno | Cytuno |
| Anghytuno'n gryf a thueddu i anghytuno | Anghytuno |
| Diogel iawn ac eithaf diogel | Diogel |
| Anniogel iawn ac eithaf anniogel | Anniogel |

### Cyfartaledd

Pan ddefnyddir y gair 'cyfartaledd' yn yr adroddiad hwn mae'n cyfeirio at gymedr rhifyddol.

### Amddifadedd

Defnyddir Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (Malc) fel y mesur swyddogol o amddifadedd yng Nghymru. Mae amddifadedd yn gysyniad ehangach na thlodi. Mae amddifadedd yn cyfeirio at broblemau ehangach a achosir gan brinder adnoddau a chyfleoedd. Felly, mae Malc yn seiliedig ar wyth math gwahanol o amddifadedd, sef: incwm, tai, cyflogaeth, mynediad at wasanaethau, addysg, iechyd, diogelwch cymunedol a'r amgylchedd ffisegol. Rhennir Cymru yn 1,896 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHIau) a cheir tua 1,500 o bobl ym mhob un. Cyfrifwyd graddau amddifadedd ar gyfer pob un o'r ardaloedd hyn: rhoddir gradd 1 i'r ACEHI fwyaf difreintiedig, a 1,896 i'r lleiaf difreintiedig. Ar gyfer y bwletin hwn, rydym wedi grwpio'r bobl sy'n byw yn y 20% o ACEHI sydd fwyaf difreintiedig ar sgôr Malc a'u cymharu â'r 20% o'r ACEHI sydd leiaf difreintiedig.

### Anweithgarwch economaidd

Pobl nad ydynt yn gweithio, ond nad ydynt yn bodloni diffiniad y Mudiad Llafur Rhyngwladol o ddiweithdra (yn awyddus i gael swydd, wedi chwilio yn ystod y pedair wythnos diwethaf ac ar gael i ddechrau gweithio yn ystod y pythefnos nesaf). Mae hyn yn cynnwys pobl sydd wedi ymddeol ac eraill nad ydynt wrthi'n chwilio am waith.

**Cartref** - Diffinnir aelwyd fel un person sy'n byw ar ei ben ei hun neu grŵp o bobl (nad ydynt o reidrwydd yn perthyn i'w gilydd) sy'n byw yn yr un cyfeiriad sy'n rhannu gofal tŷ cyffredin - sef, rhannu lolfa, ystafell fyw neu o leiaf un pryd y diwrnod.

**Rhiant** - rhieni a gwarcheidwaid cyfreithlon plant o dan ugain oed.

**Pobl** - Yn yr adroddiad, mae 'pobl' ond yn cyfeirio at oedolion 16 oed a throsodd. Yr unig eithriad i hyn yw ar gyfer y canlyniadau a geir yn yr adran ar y rhyngrwyd. Mae'r canlyniadau hyn yn ymwneud ag oedolion 18 oed a throsodd, er mwyn bod yn gyson â'r diffiniad a ddefnyddir ym mholisi Llywodraeth Cymru ar ddefnydd o'r rhyngrwyd a mynediad at y rhyngrwyd.

**Trefol / gwledig -** Mae "trefol" yn cynnwys aneddiadau gyda phoblogaeth o 10,000 neu fwy a threfi bach a'u cyrion, lle mae poblogaeth yr ardal gyfagos ehangach yn fwy prin ei phoblogaeth. Mae "gwledig" yn cynnwys pob ardal arall.

## Atodiad A - Tablau canlyniadau gyda chyfyngau hyder o 95%

Nodir detholiad o'r canlyniadau a drafodir yn y prif destun isod ynghyd â chyfyngau hyder o 95% o amgylch yr amcangyfrifon. Mae'r cyfyngau hyder hyn yn ystyried dyluniad yr arolwg. Ceir rhagor o wybodaeth am gyfyngau hyder ac esboniad o'r lliwiau a ddefnyddir yn y tablau hyn o dan Amrywioldeb samplu yn yr adran Gwybodaeth allweddol o ansawdd uchod. Noder bod y maint y sampl ar gyfer y tablau canlynol yn amrywio oherwydd fod y pobl a ddywedodd nad oeddent yn gwybod, neu'r rhai a oedd yn gwrthod ateb, a'r rhai nad oedd y cwestiwn yn berthnasol i yn cael eu dileu.

**Tabl 1: Boddhad gyda Llywodraeth Cymru, yn ôl newidynnau demograffig (a)**

| | Cymedr | CH Isaf | CH Uchaf |
|---|---|---|---|
| **Oedran:** | | | |
| 16-24 | **6.3** | *6.2* | *6.5* |
| 25-44 | **5.9** | *5.8* | *6.0* |
| 45-64 | **5.5** | *5.4* | *5.6* |
| 65-74 | **5.4** | *5.3* | *5.5* |
| 75 a throsodd | **5.9** | *5.8* | *6.1* |
| **Siarad Cymraeg:** | | | |
| Ydyn | **5.9** | *5.8* | *6.0* |
| Nac ydyn | **5.7** | *5.7* | *5.8* |
| **Ôl-troed gwasanaethau cyhoeddus:** | | | |
| Gogledd Cymru | **5.8** | *5.8* | *5.9* |
| Canolbarth a Gorllewin | **5.7** | *5.6* | *5.8* |
| Bae Abertawe | **5.7** | *5.6* | *5.8* |
| Cwm Taf | **5.7** | *5.6* | *5.9* |
| Caerdydd a'r Fro | **5.9** | *5.7* | *6.0* |
| Gwent | **5.8** | *5.7* | *5.8* |
| **Hunaniaeth Genedlaethol:** | | | |
| Cymreig | **5.8** | *5.7* | *5.8* |
| Ddim yn Gymreig | **5.8** | *5.7* | *5.8* |
| **Faint mae pobl wedi'i weld neu ei glywed am waith Llywodraeth Cymru:** | | | |
| Llawer iawn | **6.3** | *6.1* | *6.5* |
| Rhywfaint | **6.2** | *6.1* | *6.3* |
| Dim ond ychydig | **5.7** | *5.6* | *5.7* |
| Wedi gweld neu glywed am eu gwaith ond yn gwybod dim amdano | **5.1** | *5.0* | *5.3* |
| Byth wedi gweld na chlywed dim am eu gwaith | **4.6** | *4.4* | *4.8* |
| **Pawb** | **5.8** | *5.7* | *5.8* |

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, Ebrill 2013 - Mawrth 2014

Maint sampl: 13,100

(a) Rhoddodd ymatebwyr ateb ar raddfa rhwng dim a deg, lle roedd dim yn cyfleu 'hollol anfodlon' a 10 yn cyfleu 'hollol fodlon'.

**Tabl 2: Faint y mae pobl wedi gweld neu glywed am Lywodraeth Cymru, yn ôl cyrhaeddiad addysgol**

| | % | CH Isaf | CH Uchaf |
|---|---|---|---|
| **Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol lefelau 4-8:** | | | |
| Llawer iawn | **10** | *9* | *11* |
| Rhywfaint | **39** | *37* | *41* |
| Dim ond ychydig | **36** | *34* | *38* |
| Wedi gweld neu glywed am eu gwaith ond yn gwybod dim amdano | **9** | *8* | *10* |
| Byth wedi gweld na chlywed dim am eu gwaith | **5** | *4* | *7* |
| **Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol lefel 3:** | | | |
| Llawer iawn | **5** | *4* | *6* |
| Rhywfaint | **29** | *26* | *31* |
| Dim ond ychydig | **43** | *40* | *46* |
| Wedi gweld neu glywed am eu gwaith ond yn gwybod dim amdano | **14** | *12* | *16* |
| Byth wedi gweld na chlywed dim am eu gwaith | **10** | *8* | *11* |
| **Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol lefel 2:** | | | |
| Llawer iawn | **5** | *4* | *6* |
| Rhywfaint | **28** | *26* | *30* |
| Dim ond ychydig | **45** | *43* | *48* |
| Wedi gweld neu glywed am eu gwaith ond yn gwybod dim amdano | **11** | *9* | *12* |
| Byth wedi gweld na chlywed dim am eu gwaith | **11** | *9* | *13* |
| **Islaw Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol Lefel 2:** | | | |
| Llawer iawn | **3** | *2* | *4* |
| Rhywfaint | **25** | *22* | *28* |
| Dim ond ychydig | **44** | *40* | *48* |
| Wedi gweld neu glywed am eu gwaith ond yn gwybod dim amdano | **14** | *12* | *17* |
| Byth wedi gweld na chlywed dim am eu gwaith | **13** | *11* | *16* |
| **Dim Cymhwyster:** | | | |
| Llawer iawn | **3** | *2* | *4* |
| Rhywfaint | **22** | *20* | *24* |
| Dim ond ychydig | **45** | *42* | *47* |
| Wedi gweld neu glywed am eu gwaith ond yn gwybod dim amdano | **14** | *12* | *15* |
| Byth wedi gweld na chlywed dim am eu gwaith | **16** | *15* | *18* |
| **Pawb** | | | |
| Llawer iawn | **6** | *5* | *6* |
| Rhywfaint | **30** | *29* | *31* |
| Dim ond ychydig | **42** | *41* | *43* |
| Wedi gweld neu glywed am eu gwaith ond yn gwybod dim amdano | **12** | *11* | *12* |
| Byth wedi gweld na chlywed dim am eu gwaith | **10** | *10* | *11* |

Ffynhonell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, Ebrill 2013 - Mawrth 2014

Maint sampl: 13,700

**Tabl 3: Faint y mae pobl wedi gweld neu glywed am Lywodraeth Cymru, yn ôl eu gallu i siarad Cymraeg (a)**

| | Ydyn | | | Nac ydyn | | | **Pawb** | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | % | CH Isaf | CH Uchaf | % | CH Isaf | CH Uchaf | % | CH Isaf | CH Uchaf |
| Llawer iawn | **10** | *9* | *12* | **5** | *4* | *5* | **6** | *5* | *6* |
| Rhywfaint | **37** | *35* | *40* | **28** | *27* | *29* | **30** | *29* | *31* |
| Dim ond ychydig | **37** | *35* | *39* | **43** | *42* | *44* | **42** | *41* | *43* |
| Wedi gweld neu glywed am eu gwaith ond yn gwybod dim amdano | **9** | *8* | *10* | **12** | *12* | *13* | **12** | *11* | *12* |
| Byth wedi gweld na chlywed dim am eu gwaith | **6** | *5* | *7* | **12** | *11* | *12* | **10** | *10* | *11* |

Ffynhonell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, Ebrill 2013 - Mawrth 2014

Maint sampl:14,600

(a) Cafodd y rhai a ddywedodd nad oeddent yn gallu siarad Cymraeg, ond roedd ganddynt rywfaint o allu yn y Gymraeg eu codioo fel 'ydyn' er mwyn gallu eu cymharu â'r blwyddyn flaenorol.

**Tabl 4: Boddhad gyda'r gofal a dderbyniwyd yn y feddygfa, yn ôl oedran a Bwrdd Iechyd Lleol**

| | Bodlon | | | Ddim yn fodlon nac yn anfodlon | | | Anfodlon | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | % | CH Isaf | CH Uchaf | % | CH Isaf | CH Uchaf | % | CH Isaf | CH Uchaf |
| **Oedran:** | | | | | | | | | |
| 16-24 | **87** | *84* | *91* | **5** | *3* | *7* | **8** | *5* | *11* |
| 25-44 | **90** | *89* | *92* | **4** | *3* | *5* | **6** | *5* | *7* |
| 45-64 | **92** | *90* | *93* | **4** | *3* | *5* | **5** | *4* | *6* |
| 65-74 | **95** | *94* | *96* | **2** | *1* | *3* | **3** | *2* | *4* |
| 75 a throsodd | **97** | *96* | *97* | **1** | *1* | *2* | **2** | *1* | *3* |
| **Bwrdd Iechyd:** | | | | | | | | | |
| Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg | **91** | *89* | *93* | **4** | *2* | *5* | **6** | *4* | *7* |
| Prifysgol Aneurin Bevan | **91** | *90* | *92* | **4** | *3* | *5* | **5** | *4* | *6* |
| Prifysgol Betsi Cadwaladr | **94** | *93* | *95* | **2** | *2* | *3* | **4** | *3* | *5* |
| Prifysgol Caerdydd a'r Fro | **91** | *88* | *94* | **-** | - | - | **6** | *3* | *8* |
| Prifysgol Cwm Taf | **91** | *89* | *93* | **3** | *2* | *5* | **6** | *4* | *7* |
| Prifysgol Hywel Dda | **92** | *90* | *94* | **4** | *3* | *5* | **4** | *3* | *5* |
| Addysgu Powys | **91** | *87* | *94* | **-** | - | - | **-** | - | - |
| **Pawb** | **92** | *91* | *92* | **3** | *3* | *4* | **5** | *4* | *5* |

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, Ebrill 2013 - Mawrth 2014

Maint sampl: 11,600

**Tabl 5: Boddhad gyda'r gofal a dderbyniwyd yn ysbyty, yn ôl oedran a Bwrdd Iechyd Lleol**

| | Bodlon | | | Ddim yn fodlon nac yn anfodlon | | | Anfodlon | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | % | CH Isaf | CH Uchaf | % | CH Isaf | CH Uchaf | % | CH Isaf | CH Uchaf |
| **Oedran:** | | | | | | | | | |
| 16-24 | **86** | *81* | *92* | **-** | - | - | **-** | - | - |
| 25-44 | **89** | *88* | *91* | **3** | *2* | *4* | **8** | *6* | *9* |
| 45-64 | **90** | *88* | *92* | **4** | *3* | *5* | **6** | *5* | *8* |
| 65-74 | **93** | *91* | *94* | **2** | *1* | *3* | **5** | *4* | *7* |
| 75 a throsodd | **94** | *92* | *96* | **-** | - | - | **5** | *3* | *6* |
| **Bwrdd Iechyd:** | | | | | | | | | |
| Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg | **92** | *90* | *95* | **-** | - | - | **6** | *4* | *8* |
| Prifysgol Aneurin Bevan | **90** | *88* | *92* | **4** | *2* | *5* | **7** | *5* | *8* |
| Prifysgol Betsi Cadwaladr | **92** | *91* | *94* | **3** | *2* | *3* | **5** | *4* | *6* |
| Prifysgol Caerdydd a'r Fro | **88** | *85* | *92* | **-** | - | - | **8** | *4* | *11* |
| Prifysgol Cwm Taf | **92** | *89* | *95* | **-** | - | - | **5** | *3* | *6* |
| Prifysgol Hywel Dda | **90** | *88* | *93* | **-** | - | - | **7** | *5* | *9* |
| Addysgu Powys | **83** | *77* | *89* | **-** | - | - | **-** | - | - |
| **Pawb** | **91** | *90* | *92* | **3** | *3* | *4* | **6** | *6* | *7* |

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, Ebrill 2013 - Mawrth 2014

Maint sampl: 6,500

**Tabl 6: Barn am y system iechyd, yn ôl Bwrdd Iechyd Lleol**

| | Cymedr | CH Isaf | CH Uchaf |
|---|---|---|---|
| **Bwrdd Iechyd:** | | | |
| Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg | **6.3** | *6.2* | *6.5* |
| Prifysgol Aneurin Bevan | **6.3** | *6.1* | *6.5* |
| Prifysgol Betsi Cadwaladr | **6.2** | *6.0* | *6.4* |
